



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL



Bethan M Hughes

Rhannu'r Wefr Sharing the buzz

Canllawiau ar gyfer
grwpiau darllen

Guidelines for
reading groups



Estyn Allan

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government



Rhagair

'Mae'r grŵp darllen wedi newid fy mywyd i. Mae o wedi agor drysau doeddwn i ddim yn gwybod eu bod nhw yno i'w hagor. Dwi wedi cyfarfod cymaint o wahanol bobl ac wedi cael rhannu holl hwyl fy narllen. Mae cael siarad am lyfrau yn wych. Chefais i mo'r cyfle erioed o'r blaen i gael cynifer o lyfrau mor dda yn fy nwylo – a'r cwbl am ddim – ac i fod yn gwbl onest amdanynt heb orfod poeni am y gost!

Rydyn ni'n cael nosweithiau hwyliog iawn yn llawn o sgwrsio a chlebran – anghytuno cyfeillgar ac ambell sioc! Dwi'n darllen llyfrau na fyddwn fyth wedi sylwi arnynt cyn hyn. Dwi'n mwynhau'r nosweithiau misol gymaint nes mod i'n aelod o ddau grŵp a dwi ddim yn sylwi faint o lyfrau dwi'n eu darllen nes i mi eu cyfri ar ddiwedd y flwyddyn.'

Julia, Llangernyw

HELP LLAW I'CH RHOI AR BEN FFORDD yw'r canllawiau hyn. Maent ar gyfer unrhyw un sy'n dymuno cychwyn grŵp darllen i oedolion, neu sydd eisieu datblygu grŵp sy'n bodoli eisoes. Maent yr un mor berthnasol i grwpiau llyfrgell, grwpiau preifat neu grwpiau mewn siopau, gweithleoedd neu glybiau. Daw'r syniadau a'r cynghorion o sawl ffynhonnell – profiad uniongyrchol, hyfforddiant arbenigol dan adain Estyn Allan, chwilota'r we a llyfrau, ac ambell syniad gwreiddiol.

Defnyddiwch y canllawiau fel y mynnwch – trwy bori trwyddynt, neu daro mewn i adrannau penodol. Os ydych am ddefnyddio'r adnoddau, bydd angen gwneud llungopiau a'u torri allan o flaen llaw (bydd yn syniad eu lamineiddio os ydych am eu defnyddio fwy nag unwaith).

Hwyl ar y darllen a'r sgwrsio!

Bethan M. Hughes

Ebrill 2005

Cynnwys

Rhagair

Cydnabyddiaethau

- 1 Beth yw grŵp darllen?
- 2 Pam ymuno â grŵp darllen?
- 3 Cychwyn grŵp newydd
- 4 Esiamplau o grwpiau darllen
- 5 Denu aelodau a hysbysebu
- 6 Y cyfarfod cyntaf
- 7 Arwain grŵp darllen
- 8 Dewis beth i'w ddarllen
- 9 Cymorth wrth ddarllen
- 10 Trafod llyfrau
- 11 Gweithgareddau arbennig
- 12 Gêmau darllen
- 13 Sgwennu am lyfrau
- 14 Datrys problemau
- 15 Awgrymiadau i lyfrgellwyr
- 16 Grwpiau darllen a llyfrau ar y we
- 17 Llyfrau am lyfrau

Adnoddau

- 18 Annwyl Ddarllenydd
- 19 Hel atgofion
- 20 Pawb â'i rôl
- 21 Sgwrsio am lyfrau
- 22 Tamaid i aros pryd
- 23 Llyfrnodau

Cydnabyddiaethau

Defnyddiwyd ystod eang o ffynonellau print ac ar-lein wrth baratoi'r canllawiau hyn – fe'u nodir yn adrannau 16 ac 17. Mae rhai o'r syniadau yn ymddangos yn nifer ohonynt.

Diolch i:

Llyfrgellwyr Estyn Allan, rhwydwaith datblygu darllen Cymru, am eu cydweithrediad parod

Rhaglen hyfforddiant cynllun Estyn Allan, dan adain Opening the Book, gyda chefnogaeth grant Celfyddydau i Bawb Cyngor Celfyddydau Cymru

Opening the Book, am yr hawl i ddefnyddio syniadau allan o'r Reading Group Toolbox 1999 (ISBN 1902603176)

Staff Gwasanaeth Llyfrgell Sir Ddinbych am eu cefnogaeth

Aelodau grwpiau darllen yn Sir Ddinbych a Chonwy am eu sylwadau a'u hysbrydoliaeth

Staff Cyngor Llyfrau Cymru am sicrhau fod y pecyn adnoddau hwn yn gweld golau dydd.

1 Beth yw grŵp darllen?

Yn ei hanfod, grŵp darllen yw criw o ddarllenwyr yn dod at ei gilydd yn rheolaidd i drafod llyfrau a rhannu'r profiad a'r wefr o ddarllen.

Nid dosbarth addysg bellach na chylch llenyddol yw grŵp darllen. Mae'n gyfle i ddarllenwyr ddod at ei gilydd i rannu'r profiad darllen. Nid penderfynu pa mor dda yw'r llyfr sy'n bwysig, ond beth oedd y profiad o'i ddarllen i bob darllenydd unigol – eu teimladau wrth ddarllen a'u hymateb i'r llyfr. Nid oes angen sgiliau llenyddol, gradd mewn llenyddiaeth na phrofiad fel adolygydd i fod yn aelod. Hoffi darllen a sgwrsio am lyfrau yw'r unig 'gymhwyster' sydd ei angen.

Mae grŵp darllen sy'n canolbwyntio ar y darllenwyr yn:

- parchu profiad darllen unigol pawb
- galluogi pobl sydd â gwahanol chwaeth mewn darllen i sgwrsio gyda'i gilydd ar dir cyffredin
- annog trafod ymatebion yn onest heb unrhyw bwysau i berfformio
- yn agored i wahanol lefelau o ymroddiad amser a'r awydd i ddarllen

(www.openingthebook.com)

Mae'r enw ar y math hwn o grŵp yn amrywio – cylch darllen, clwb darllen, grŵp darllenwyr – ac ar gyfer y canllawiau hyn, fe ddefnyddir y term cyffredinol 'grŵp darllen' i gynnwys y cwbl.

Mae rhai grwpiau yn canolbwyntio ar nofelau a ffuglen, eraill ar farddoniaeth neu lyfrau ffeithiol; mae rhai yn darllen un *genre* arbennig o ffuglen – nofelau ditectif neu ramant, er enghraifft. Mae'r mwyafrif o grwpiau yn darllen amrywiaeth o lyfrau.

Y grŵp ei hun sy'n penderfynu sut fath o grŵp fydd o, pryd a lle y bydd yn cyfarfod, a beth fydd yr aelodau yn ei ddarllen.

2 Pam ymuno â grŵp darllen?

Mae darllen yn weithgaredd creadigol unigol, mewnlol a phreifat, ac mae grŵp darllen yn cynnig y cyfle i ddod at ddarllenwyr eraill i rannu'r profiad darllen a'r ymateb i lyfr.

"Mae darllen yn beth mor bersonol, a dwi angen siarad hefo rhywun amdano – does gan neb o 'nheulu i ddi-ddordeb. Dwi angen y cyfle i fynegi'r emosiynau cryf mae llyfr yn eu creu."

Mae darllen hefyd yn brofiad unigryw. Mae'n berthynas rhwng darllenydd a llyfr, a thrwy'r llyfr, rhwng darllenydd ac awdur. Mae'r profiad o ddarllen yn unigryw i'r foment honno mewn amser, mewn man arbennig, ar adeg benodol ym mywyd y darllenydd. Mae'r darllenydd yn ymateb i'r llyfr drwy gyd-destun ei brofiadau bywyd ei hun, a dyna pam y bydd ei ymateb yn wahanol i ymateb darllenydd arall sy'n darllen yr un llyfr. Mewn grŵp darllen, ceir cyfle i rannu'r profiadau hyn, a'u cymharu.

Mae grŵp darllen hefyd yn gyfle i ehangu gorwelion darllen, i ddarllen llyfrau gwahanol i'r arfer, neu i dderbyn her i ddarllen rhywbeth ymestynnol.

"Mae'r grŵp wedi gwneud i mi ddarllen llyfrau Cymraeg – a dwi mor ddiolchgar oherwydd 'mod i'n eu mwynhau cymaint."

"Dwi wedi darllen llyfrau na fyddwn fyth wedi eu darllen oni bai am y grŵp – a diolch byth am hynny."

Mae grŵp darllen hefyd yn cynnig digwyddiad cymdeithasol trwy gyd-destun darllen, a chyfle i gyfarfod â phobl o gefndiroedd gwahanol.

"Fe wnes i ymuno er mwyn cyfarfod pobl o'r un anian â mi ac i ledaenu fy mhrofiad darllen."

"Rydyn ni'n griw o bobl mor wahanol i'n gilydd, ac eto mae darllen yn dod â ni at ein gilydd yn rheolaidd."

I lawer o ddarllenwyr mae'n cynnig disgyblaeth darllen a chyfle i gael amser personol yng nghanol bwrlwm bywyd.

"Mae o'n ddisgyblaeth dda – dwi'n gorfod dod o hyd i'r amser i ddarllen yn ystod y mis."

"Dwi wir eisiau'r amser yma i mi fy hun – ers yn rhy hir dwi wedi rhoi fy holl amser i'm teulu ifanc. Dwi wir yn mwynhau'r holl beth – llyfrau newydd, pobl newydd."

Gall hefyd arwain at weithgareddau eraill ym myd llyfrau:

"Trwy'r grŵp darllen dwi wedi cael y cyfle i gyfarfod awduron weithiau ac i sgwrsio hefo nhw am eu llyfrau – grêt!"

I lyfrgelloedd, mae grwpiau darllen yn gyfle i gynnig profiad sy'n cyfoethogi darllen. Gall ddangos y llyfrgell mewn golau gwahanol i lawer o ddarllenwyr, ac fe all ddenu cwsmeriaid newydd i'r gwasanaeth. Gall y grwpiau hefyd gynorthwyo'r llyfrgell i hyrwyddo darllen i gymuned ehangach.

"Trwy ddod i'r sesiynau stori Dechrau Da yn y llyfrgell gyda fy mhlant bach y des i'n ôl i'r llyfrgell – a darganfod yn sydyn nad yw llyfrgelloedd fel roeddynt ers talwm. Dydyn nhw ddim yn dawel o hyd nac yn llefydd brawychus – ond yn hytrach yn gartrefol a chyfeillgar. Felly fe es ymlaen i ymuno â'r grŵp darllen – a dwi wir yn mwynhau'r egwyl rhwng y dyletswyddau mamol!"

"Mae'r llyfrau dwi'n eu darllen yn y grŵp yn mynd llawer pellach. Fe fydd fy mab a fy merch yn holi am y llyfrau ac yn aml iawn yn eu darllen nhw hefyd – wedyn maen nhw'n sôn wrth eu ffrindiau amdanynt."

3 Cychwyn grŵp newydd

Beth sy'n gwneud i rywun fod ag awydd sefydlu grŵp darllen?

Efallai eich wedi bod yn meddwl ers tro yr hoffech gychwyn grŵp darllen. Efallai eich bod yn ddarllenydd brwd eich hunan ac yn dymuno cyfarfod gyda darllenywyr eraill er mwyn trafod y profiad o ddarllen llyfrau. Efallai eich bod yn griw o ffrindiau neu gyd-weithwyr sydd eisiau treulio amser rheolaidd gyda'ch gilydd i sgwrsio am lyfrau. Neu efallai eich bod yn llyfrgellydd sy'n awyddus i gynnig y cyfle o gyd-gyfarfod i ddarllenywyr sy'n defnyddio eich llyfrgell er mwyn ehangu'r profiad darllen.

Sut fath o grŵp fydd o?

Grŵp mewn llyfrgell:

- Mae'n lleoliad niwtral, diogel sy'n agored i bawb ac sy'n croesawu darllenywyr
- Bydd modd defnyddio ystafell neu ran o'r llyfrgell am ddim fel arfer
- Mae yno adnoddau parod (llyfrau, cyfrifiaduron, catalog)
- Gall y grŵp fanteisio ar gefnogaeth staff y llyfrgell
- Mae'n gwneud darllen yn amlwg i bobl eraill
- Bydd angen ystyried mynediad y tu allan i oriau agor os yn berthnasol
- Dylid bod yn ymwybodol o'r pwysau ar amser y staff

Grŵp preifat neu griw o ffrindiau:

- Mae'r grŵp fel arfer yn cyfarfod yng nghartrefi'r aelodau
- Bydd yr awyrgylch yn eithaf anffurfiol, yn arbennig os yw pawb yn 'nabod ei gilydd eisoes
- Mae'n fwy anodd i aelodau newydd ymuno â grŵp preifat
- Mae angen bod yn ymwybodol o ddiogelwch personol wrth fynd i dai pobl ddieithr

Grŵp mewn lleoliad cymunedol:

- Mae sawl grŵp darllen yn cyfarfod mewn tafarn, caffi neu ganolfan gymdeithasol

- Mae'r awyrgylch yn anffurfiol ac mae'n eithaf rhwydd i aelodau newydd ymuno
- Bydd angen dod â'r llyfrau yno

Grŵp ar-lein:

- Grŵp sy'n trafod llyfrau drwy gyfrwng y we neu e-bost
- Cyfle i gyfathrebu gyda darllenywyr ledled y byd
- Addas ar gyfer pobl sy'n methu mynychu cyfarfodydd, neu sydd eisiau ymateb i lyfrau mewn ffordd llai cyhoeddus
- Mae llawer o aelodau o grwpiau arferol hefyd yn aelodau o grwpiau ar-lein

Beth fydd y grŵp yn ei ddarllen?

- Ffuglen, ffeithiol, cofiannau, barddoniaeth – neu gymysgedd?
- Ym mha iaith fydd y darllen a'r trafod? Mae'n bosib trafod llyfrau Cymraeg a Saesneg trwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft. Beth am ieithoedd eraill, neu ddysgwyr?

Pwy fydd yr aelodau?

- A fydd y grŵp yn agored i unrhyw un ymaelodi ag o? Mae grwpiau mewn llyfrgell yn agored yn eu hanfod.
- A fyddwch chi'n gwahodd pobl i ymaelodi, fel sy'n arferol gyda grwpiau preifat?
- Fydd y grŵp yn cynnwys pobl sydd â nam ar y golwg? A fydd pawb yn defnyddio'r un ffurf (CD/tapiau sain neu brint bras) neu fyddwch chi'n darparu yn ôl anghenion unigolion?

Pa mor fawr fydd y grŵp?

- I fod yn hylaw, mae gan y rhan fwyaf o grwpiau llwyddiannus rhwng 6 a 15 o aelodau.

Byddwch yn barod i gychwyn yn fach – bydd 3 neu 4 yn ddigon i gychwyn, ac yn fuan iawn fe ddaw rhagor atoch; bydd yr aelodau cyntaf hynny'n debygol o ddod â ffrind gyda nhw y tro nesaf.

Yn aml, mae gan y grwpiau mwyaf llwyddiannus gymysgedd o bobl yn aelodau ohonynt, o ran oedran, cefndir a diddordebau.

4

Esiamplau o grwpiau darllen

Mae pob grŵp darllen yn wahanol, gyda'i ddeinameg ei hun. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw bod darllenwyr yn cyfarfod i siarad am lyfrau a'r profiad o'u darllen.

Grwpiau Darllen Llyfrgell Cwibrân

Roedd staff y llyfrgell yn awyddus i gychwyn grŵp darllen er mwyn dod â darllenwyr at ei gilydd. Hysbysebwyd y grŵp gyda phosteri, darnau yn y wasg ac ar lafar, gan anelu at aelodau'r llyfrgell a'r gymuned ehangach. O fewn ychydig wythnosau roedd digon o enwau i ffurfio 2 grŵp, sydd bellach yn cyfarfod unwaith y mis, ar ddydd Sadwrn. Y llyfrau sy'n ysgogi'r trafodaethau mwyaf bywiog yw'r rhai nad yw'r darllenwyr wedi eu mwynhau! Mae arddangosfa o sylwadau'r darllenwyr ar gael yn y llyfrgell, ynghyd â chopïau o'r llyfrau.

Grŵp o ffrindiau

Does gan y grŵp yma ddim enw oherwydd eu bod eisoes yn griw o ffrindiau oedd yn dymuno dod at ei gilydd i sgwrsio am lyfrau. Roedd nifer ohonynt yn awyddus i ymestyn eu darllen a chael gafael ar lyfrau gwahanol. Maent yn cyfarfod bob chwech wythnos yng nghartref un o'r aelodau, a'r aelod honno sy'n dewis y llyfrau i'w darllen. Byddant yn cael ychydig o fwyd, sgwrs fach gymdeithasol, ac wedyn yn mynd ati i drafod y llyfrau. Maen nhw'n mwynhau cael dadl boeth – ac mae un aelod yn arbennig o dda am ofyn cwestiynau pryfoclyd.

Grŵp Darllen Arddegwyr, Llyfrgell Cefn Mawr, Wrecsam

Y Grŵp Antur yw eu henw – oherwydd eu bod yn meddwl fod pob llyfr yn antur. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob mis i drafod llyfrau maen nhw wedi eu dewis (ac i fwynhau diod a siocled!). Mae'r aelodau'n sgwrsio sylwadau am y llyfrau ar gyfrifiaduron y llyfrgell, yn eu gosod yn adran arddegau'r llyfrgell ac yn anfon rhai at y papur lleol. Pan mae'r grŵp wedi mwynhau llyfr maen nhw'n gosod sticer argymell arno, ac maent yn chwilo'ta'r we am lyfrau i'w benthyg. Mae awduron wedi ymweld â'r grŵp ac maent wedi ymweld â llefydd fel stiwdio'r BBC yn Wrecsam. Yn eu parti Nadolig daeth pob aelod â 'mêt' er mwyn eu cyflwyno i'r llyfrgell neu i'r grŵp, ac maent yn bwriadu croesawu grwpiau eraill i mewn er mwyn iddynt weld beth sy'n mynd ymlaen.

Mae grwpiau eraill i'r arddegau yn cyfarfod am gyfnod byr yn unig – tua 6 wythnos – fel bod y bobl ifanc yn gwybod beth maen nhw'n ymroddi iddo, heb orfod edrych yn rhy bell ymlaen.

'Pobl fawr' yn Sir Ddinbych

Wrth gynnal sesiynau rhigwm a stori ar gyfer plant bach mewn canolfannau cymunedol, clywodd y gweithiwr Dechrau Da y rhieni ifanc yn sôn am lyfr wrth sgwrsio. Manteisiodd ar y cyfle i gynnig dod â llyfrau iddynt eu gweld yn y sesiwn nesaf. Aeth â llond boc o lyfrau oedolion o'r llyfrgell – nofelau a chofiannau oedd yn uchel eu proffil ar y pryd. Doedd y rhieni erioed wedi bod yn y llyfrgell ac nid oeddynt yn sylweddoli fod y math yna o lyfrau ar gael yn y llyfrgell. Roeddynt wedi gwirioni gyda'r dewis a bron â marw eisiau eu benthyg i'w darllen. Yn y sesiynau stori canlynol, roeddynt yn sgwrsio am y llyfrau dros eu paned. Dechreuodd y gweithiwr nodi eu sylwadau am y llyfrau, ac maent nawr yn cael eu harddangos mewn llyfrgelloedd ar gyfer darllenwyr eraill. Mae'r rhieni erbyn hyn yn ddarllenwyr llawer mwy hyderus, yn aelodau o'r llyfrgell ac yn benthyca a darllen yn rheolaidd. Maent am ystyried cyfarfod fel grŵp cyn hir – heb y plant!

Grŵp Darllen Gwaenysgor a'r Llyfrgell Deithiol

Mewn ardal wledig yn Sir y Fflint, mae criw o ddarllenwyr yn cyfarfod unwaith bob chwarter i drafod llyfrau. Roedd un wraig wedi gweld fod grwpiau darllen mewn llyfrgelloedd yn yr ardal, ond nid oedd yn ymarferol iddi hi a'i ffrindiau deithio iddynt. Gyda chymorth y llyfrgell, fe sefydlwyd grŵp sy'n cyfarfod yn ei chartref hi. Mae'r grŵp yn dewis ac yn archebu setiau o lyfrau oddi ar restr i'r llyfrgell ac yn eu casglu o'r llyfrgell deithiol pan ddaw i'r pentref.

Cylch Darllen y Dysgwyr yn Llyfrgell Rhuthun

Bob mis, daw criw o oedolion sydd wedi dysgu Cymraeg at ei gilydd i sgwrsio yn Gymraeg am lyfrau Cymraeg, dan arweiniad llyfrgellydd. Yn y dechrau roeddynt yn hapus i ddarllen nofelau oedd wedi eu hysgrifennu ar gyfer dysgwyr, ond yn fuan iawn roeddynt yn gofyn am lyfrau mwy heriol eu cynnwys a'u lefel darllen. Bellach maent yn darllen a thrafod amrywiaeth eang o nofelau cyfoes a chlasurol, cofiannau a cherddi. Maent mor falch o gael cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'w gwersi ac o gael dysgu am y cyfoeth o lyfrau Cymraeg sydd ar gael. Mae sawl aelod yn nodi geiriau ac ymadroddion sy'n newydd iddynt – ac maent wedi dysgu geirfa hollol newydd trwy ddarllen ambell nofel!

5 Denu aelodau a hysbysebu

Ar lafar

- Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol fel arfer – darllenwyr yn sôn wrth ffrindiau a chymdogion, staff llyfrgell yn sôn wrth fenthycwyr

Targedwch

- Os yw'n fwriad i'r grŵp ddenu pobl o un gymuned benodol, mae'n werth targedu, er enghraifft, ysgolion i ddenu rhieni ifanc, clwb chwaraeon neu dafarndai i ddenu dynion
- Cofiwch am anghenion pobl gyda nam ar y golwg wrth ddylunio cyhoedduswydd mewn ffurf briodol. Defnyddiwch gyfryngau fel cymdeithasau lleol, papurau ar dâp a gwefannau i'w cyrraedd. Mae llawer o gyngor ar gael ar wefannau arbennig – ewch i *Grwpiau darllen a llyfrau ar y we* [Adran 16]

Posterï a thafleenni

- Gosodwch bosterï mewn llyfrgelloedd, siopau llyfrau a lleoliadau cymunedol
- Gosodwch daflenni bach ym mhob llyfr sy'n cael ei fenthycu o'r llyfrgell neu ei werthu mewn siop dros gyfnod penodol

Y wasg a'r cyfryngau

- Ysgrifennwch ddatganiad byr i'r wasg leol neu cynigiwch gyfweiliad i radio lleol

Wrth ysgrifennu posterï, taflenni neu destun i wefan er mwyn denu darllenwyr i ymuno â grŵp darllen, ceisiwch werthu'r budd i'r darllenydd yn hytrach na'r grŵp ei hun.

- Pwyleisiwch y wefr o ddarllen a rhannu yn hytrach na bod yn aelod o grŵp
- Gwerthwch y pleser a'r mwynhad, y gwmnïaeth o fod gyda chyd-ddarllenwyr, y cyffro o ddarllen llyfrau newydd
- Cofiwch na fydd y rhan fwyaf o bobl yn gwybod beth yw grŵp darllen
- Defnyddiwch iaith awgrymog, ddoniol i bwysleisio mai hwyl yw'r nod ac i wahaniaethu rhwng grŵp darllen a dosbarth llenyddiaeth, efallai
- Beth am ddefnyddio trosiad slic i ddisgrifio'r profiad darllen?
Carwriaeth gyda llyfr – perthynas newydd, dal y gannwyll, dêt ddirgel

Siwrne gyda llyfr – chwilio am rywle, map, cyrraedd, man annisgwyl, mynd ar goll, dychwelyd adref

Cael blas ar lyfr – blas newydd, bwyd cartrefol, blas egsoftig, melys/chwerw, cnoi cil, llyncu llyfrau

Dyma un enghraifft o hyrwyddo grwpiau darllen ar wefan:

Sut deimlad yw hi i fod yn hollol lonydd am oriau tra bod arlunydd yn paentio portread ohonoch? Sut beth fyddai nofel o gyfnod Dickens pe câi ei hysgrifennu heddiw?

Bu grwpiau o bobl sy'n hoff o ddarllen ac yn dymuno siarad am yr hyn maent wedi'i ddarllen yn dod at ei gilydd mewn llyfrgelloedd ac yn trafod llyfrau. Bob mis, rhoddir yr un llyfr iddynt, ac yna byddant yn dianc i'w hoff gadair, soffa, bath neu lle bynnag a'i ddarllen, ac yn dychwelyd y mis nesaf i ddweud wrth ei gilydd pa mor wych, da, gweddol neu rwtsh llwyr ydyw. Felly, fel y gwelwch, nid yw'n orfodol eich bod yn hoffi'r llyfrau hyn. Mewn gwirionedd mae'r trafodaethau yn llawer mwy bywiog a diddorol pan fo amrywiaeth barn.

O fis Hydref, byddwn yn darganfod sut y mae bachgen sydd â Syndrome Asperger yn ymchwilio trosedd. Cawn weld sut y gall pâr priod hapus fyw mewn fflatiau sy'n cyffinio. Byddwn yn cyfarfod gwyrachod ac eirth arfog. Cawn dreulio amser yn y gymuned Bengali yn Llundain a chawn ddarganfod pa fath o gogydd yw Minotor. Gellir gwneud hyn i gyd mewn llyfrgell gyfeillgar gyda the a bisgedi am ddim. Beth allai fod yn well?

Ymunwch â ni, ac efallai y dewch o hyd i lyfr y byddwch chi wir yn ei hoffi, neu hyd yn oed lyfr yr ydych yn ei gasáu i'r fath raddau i chi gael eich cynhyrfu ganddo. Rhowch gynnig arni, efallai ceuwch eich synnu!

(o www.bridgend.gov.uk)

6 Y cyfarfod cyntaf

Bydd y cyfarfod cyntaf hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer y dyfodol ac yn gadael argraff ar y darllenwyr, felly mae'n bwysig taro'r nodyn cywir o'r cychwyn. Hyd yn oed os ydych yn 'nabod eich gilydd eisoes, dyma gyfle i ddechrau dod i 'nabod eich gilydd *fel darllenwyr*.

Cychwynnwch gyda gêm

Chwaraewch y gêm *Annwyl Ddarlennydd* [Adrannau 12 & 18] mewn parau a gofyn i aelodau gyflwyno eu partner gan ddweud eu henw ac un ffaith ddiddorol amdanynt fel darlennydd (gan ddefnyddio'r wybodaeth o'r gêm).

Eglurwch beth yw grŵp darllen

Holwch beth mae pobl yn disgwyl ei gael allan o'r grŵp, a byddwch yn ystyriol os yw rhai pobl yn nerfus. Eglurwch beth yw grŵp darllen ac nad yw'n grŵp academiaidd llenyddol. Cadwch y pwyslais ar yr hwyl a'r mwynhad o ddarllen a rhannu'r profiad hwnnw, yn hytrach na mecanwaith rhedeg y grŵp.

Dechreuwch drafod

- ◆ Pa fath o lyfrau fydd y grŵp eisiau eu darllen?
- ◆ Fyddwch chi'n benthyg copïau llyfrgell neu'n prynu'r llyfrau?
- ◆ Oes angen ffurfiau amgen (print bras, CD/tapiau sain)?
- ◆ Ydych chi i gyd am ddarllen yr un llyfr neu ddilyn themâu?
Ewch i *Dewis beth i'w ddarllen* [Adran 8]
- ◆ Sut fath o drafodaeth ydych chi eisiau ei gael?
Ewch i *Trafod Llyfrau* [Adran 10]
- ◆ Mae'n syniad da amrywio'r patrwm o bryd i'w gilydd.
Ewch i *Gêmau* [Adran 12] neu *Gweithgareddau arbennig* [Adran 11]
- ◆ Ymhle fydd y grŵp yn cyfarfod? Yn y llyfrgell, mewn cartrefi, mewn tafarn neu gaffi, neu ganolfan gymunedol?
- ◆ Oes angen llogi ystafell a thalu? Sut mae talu unrhyw gostau?
- ◆ Pa mor aml? Mae'r mwyafrif o grwpiau yn cyfarfod unwaith y mis, sy'n rhoi digon o amser

i aelodau ddarllen un neu ddau o lyfrau. Mae rhai grwpiau yn cyfarfod bob wythnos ac yn trafod y llyfr wrth iddynt ei ddarllen. Bydd eraill ond yn dod at ei gilydd unwaith bob dau fis neu unwaith y tymor.

- ◆ Faint o'r gloch? Yn ystod y dydd, fin nos, ar benwythnos?
- ◆ Am faint o amser? Bydd tua awr a hanner i ddwy awr yn rhoi digon o amser i sgwrsio'n gymdeithasol, i drafod y llyfrau, i drafod unrhyw fusnes angenrheidiol, i gael lluniaeth ac i glirio ar y diwedd.
- ◆ Ydych chi am gael lluniaeth? Sut fath? Gwin? Coffi?
- ◆ Pwy sy'n darparu a pharatoi? Os oes costau, sut mae talu? Pwy sy'n clirio wedyn?
- ◆ A fydd rhywun yn arwain y grŵp?
- ◆ Pwy fydd yn llywio'r cyfarfodydd ac yn arwain y drafodaeth?
Ewch i *Arwain grŵp darllen* [Adran 7] am ragor o gynghorion

Mae'n ddefnyddiol i'r arweinydd gael rhestr o'r aelodau gyda rhifau ffôn a chyfeiriadau rhag ofn y bydd angen cysylltu â hwy cyn y cyfarfod nesaf. Sicrhewch ganiatâd pawb cyn rhannu'r rhestr gyda gweddill y grŵp neu gydag unrhyw un arall.

Y cyfarfodydd nesaf

Does dim rhaid penderfynu ar bopeth y tro cyntaf – arbrofwch gyda gwahanol ddulliau o drafod ac o ddewis llyfrau ac fe ddaw y patrwm yn gliriach. Byddai'n syniad da cael adolygiad o'r holl drefniadaeth ar ôl rhyw 6 mis i weld a yw pawb yn fodlon.

7 Arwain grŵp darllen

Mae ar bob grŵp darllen angen rhywfaint o gydlynu ac arweiniad i sicrhau cyfarfodydd llwyddiannus a threfniadaeth effeithiol. Mewn sawl grŵp, mae'r un person yn cydlynu ac yn llywio'r drafodaeth; mewn rhai eraill mae gwahanol bobl yn gwneud.

Cydlynu

Yn aml, y person sydd wedi bod yn flaenllaw wrth sefydlu'r grŵp darllen sy'n cydlynu – darllenydd brwd, llyfrgellydd neu aelod o staff y llyfrgell neu'r siop lyfrau efallai. Gall y rôl gynnwys:

- Llywio'r drafodaeth yn y cyfarfodydd cyntaf
- Gofalu am aelodau newydd
- Trefnu fod yr ystafell ar gael
- Sicrhau fod llyfrau'n cael eu dewis mewn da bryd
- Awgrymu gweithgareddau arbennig neu gêm ddarllen
- Cael gafael ar y llyfrau sydd i'w trafod
- Goruchwylio cyhoeddusrwydd y grŵp
- Casglu sylwadau'r darllenydd

Llywio

Fe all yr aelodau yn eu tro lywio'r drafodaeth – mae'n rhannu'r cyfrifoldeb ac yn annog pawb i gyfrannu at weithgaredd y grŵp. Gwaith y llywydd yw:

- Galw'r cyfarfod i drefn ar ôl y cymdeithasu naturiol ar y dechrau
- Gofyn y cwestiwn agoriadol i gychwyn y sgwrs (angen ystyried pa gwestiwn o flaen llaw)
- Gofyn cwestiynau agored i ysgogi sgwrsio yn hytrach nag atebion un gair!
- Sicrhau fod pawb yn cael cyfle i siarad os yw'n dymuno
- Dod â'r sgwrs yn ôl at y llyfr os yw'r grŵp wedi mynd ar ôl sgwrsio
- Taflu cwestiwn i mewn i newid cyfeiriad y sgwrs
- Cadw'r ddysgl yn wastad os bydd anghytundeb
- Atgoffa'r grŵp o'i reolau os yw pethau'n mynd o chwith

Defnyddir y gair 'llywydd' yn y canllawiau hyn i gynnwys yr agweddau hyn i gyd.

Am syniadau ar sut fath o drafodaeth i'w gael

– *Trafod llyfrau* [Adran 10]

Am gwestiynau cyffredinol sy'n addas i unrhyw lyfr

– *Sgwrsio am lyfrau* [Adrannau 12 a 21]

Am ddulliau o ddatrys problemau – *Datrys problemau* [Adran 14]

Anogwch bobl i ddod i'r cyfarfod hyd yn oed os nad ydynt wedi gorffen darllen y llyfr. Gallant fwynhau'r sgwrs a holi cwestiynau, ac fe all fod o gymorth i rywun sydd yn cael trafferth gyda'r llyfr. Penderfynwch fel grŵp os ydych am drafod diweddglo'r llyfr ger bron pobl sydd heb ei orffen eto!

Fel llywydd, peidiwch â bod yn rhy gaeth wrth gadw pobl 'ar y pwnc' – mae'r profiad o ddarllen llyfr yn bersonol iawn ac yn gallu helpu pobl i ddeall agweddau o'u bywydau eu hunain, felly efallai fod ganddynt angen amser i siarad. Serch hynny, rhaid gwyllo rhag dilyn gormod o sgwrsio, a chofio am yr holl aelodau eraill hefyd.

Nid oes raid i'r arweinydd ddarllen y llyfr bob tro! Gall fod yn fantais cael llywydd sy'n ddiuedd ac yn barod i ddal yr awenau a llywio'r drafodaeth yn hytrach mynegi barn. Defnyddiwch y cwestiynau cyffredinol yn *Sgwrsio am lyfrau* [Adrannau 12 a 21].

Fel llywydd, nid chi yw'r arbenigwr; nid oes disgwyl i chi wybod popeth am y llyfrau. Mae barn pawb yn bwysig – eich rôl chi yw galluogi eraill i rannu eu profiadau.

Peidiwch â chymryd y baich o wneud popeth – dewis y llyfrau, trefnu'r stafell, gwneud y banded, arwain y drafodaeth, cofnodi'r sylwadau a chreu posteri cyhoeddusrwydd! Defnyddiwch y gêm *Pawb â'i rôl* [Adrannau 12 a 20] er mwyn rhannu'r dylestwyddau ymhlith yr aelodau i gyd.

8 Dewis beth i'w ddarllen

Wrth ffurfio'r grŵp, byddwch wedi penderfynu a ydych am fod yn grŵp sy'n darllen amrywiaeth eang o lyfrau, neu a oes arnoch eisiau darllen yn fwy cyfyng. Mae sawl grŵp darllen llwyddiannus iawn yn canolbwyntio ar un math o lyfr neu un *genre* (nofelau ditectif, barddoniaeth, rhamant neu ffantasi er enghraifft), ond mae'r mwyafrif yn darllen amrywiaeth eang o lyfrau.

Pa mor bell o flaen llaw ydych chi am ddewis llyfrau? Mae angen digon o amser i gael y llyfrau i mewn, ond ddim yn rhy hir neu ni fydd y grŵp yn gallu ymateb i syniadau newydd sy'n codi na newid yn ôl ffansi'r aelodau – mae angen cadw hyblygrwydd. Rhwng 2 a 6 mis sy'n arferol.

Wedi dewis eich llyfrau neu thema, cynhyrchwch daflen gyda'r dyddiadau y byddwch yn eu trafod. Bydd pawb yn gwybod beth i'w ddarllen a phryd mae'r cyfarfodydd. Gallwch hefyd ddanfon taflen at aelodau sydd wedi methu cyfarfodydd. Mae grwpiau mewn llyfrgell fel arfer yn gosod poster ar hysbysfwrdd i ddangos pa lyfrau y byddant yn eu darllen – gall ddenu aelodau newydd a chynnig awgrymiadau darllen i ddefnyddwyr y llyfrgell.

Os oes aelodau sydd ag anghenion arbennig, yn arbennig os oes ganddynt nam ar y golwg, dylid ceisio dewis llyfrau sydd hefyd ar gael mewn ffurf amgen priodol – llyfrau llafar ar dâp neu CD, print bras, braille a.y.y.b. Bydd y llyfrgell leol yn debygol o allu darparu copïau print bras neu lafar os ydynt wedi eu cyhoeddi, neu fe all unigolion fenthyg oddi wrth Gymdeithas y Deillion/RNIB, Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion neu'r National Library for the Blind (ewch i *Grwpiau darllen a llyfrau ar y we* [Adran 16] am fanylion cyswllt). Wrth drefnu rhaglen ddarllen dylid ystyried yr amser sydd ei angen i sicrhau'r copïau amgen hyn.

Yr un llyfr

Mae'r grŵp yn dewis un teitl i bawb ei ddarllen ac yna ei drafod yn y cyfarfod nesaf. Er bod pawb yn darllen yr un llyfr, bydd profiad pob darllenydd yn wahanol, wrth gwrs, a dyna sy'n rhoi sail i

drafodaeth ddiddorol. Yn aml iawn, bydd gwell trafodaeth pan fydd aelodau'n anghytuno am y llyfr, neu pan fydd pawb wedi ei gasáu!

Weithiau, oherwydd nad oes digon o gopïau ar gael, neu er mwyn cael trafodaeth wahanol, bydd grŵp yn dymuno dewis dau lyfr. Os felly, mae'n syniad da cael rhyw ddolen gyswllt rhwng y ddau lyfr i hwyluso'r trafod. Efallai bod cysylltiad neu wrthgyferbyniad rhwng y ddau lyfr neu'r ddau awdur. Efallai eu bod yn ymdrin â'r un thema mewn ffyrdd gwahanol.

Mae sawl ffordd o ddod o hyd i lyfrau er mwyn penderfynu beth i'w ddarllen fel grŵp:

- Awgrymiadau gan aelodau'r grŵp
- Awgrymiadau gan lyfrgellydd neu lyfrwerthwr
- Gêmâu e.e. *Cyfarfod y Llyfrau; Tamaid i aros pryd* [Adran 12]
- Ymgyrchoedd arbennig e.e. Nofel y Mis a Wales Book of the Month y Cyngor Llyfrau
- Arddangosfeydd mewn llyfrgell neu siop
- Llyfrau'r foment mae pawb yn siarad amdanynt
- Eitemau mewn cylchgronau neu bapurau newydd
- Sylwadau gan ddarllenwyr ar hysbysfwrdd llyfrgell
- Radio a theledu
- Enillwyr a rhestri byrion/hirion gwobrau llyfrau
- Rhestri llyfrau
- Gwefannau darllenwyr
- Cyhoedduswydd cyhoeddwyr
- Teitlau 'Gwerth eu darllen' ar www.gwales.com

Pan fydd darllenwyr yn mwynhau llyfr, efallai y byddant yn awyddus i ddarllen rhagor o'r math hwnnw o lyfr neu lyfrau eraill gan yr un awdur. Mae nifer o wefannau darllenwyr yn cynnig syniadau pellach [Adran 16] a llyfrau fel *Who else writes like?* ac *Adult Sequels* fydd ar gael mewn llyfrgelloedd – *Llyfrau am lyfrau* [Adran 17].

Amrywiaeth o lyfrau

Er bod darllen a thrafod yr un llyfr yn golygu y

bydd pob aelod yn gallu rhannu'r profiad, weithiau mae'n syniad i amrywio'r patrwm ac i drafod ystod ehangach o lyfrau. Yn aml mae'n ysgogiad da i ddarllen llyfrau gwahanol, ac mae'n gyfle hefyd i bawb gyfrannu at y drafodaeth, hyd yn oed os nad ydynt wedi darllen yr un llyfr ag eraill.

Gyda nifer o'r awgrymiadau hyn, byddai'n syniad da cael casgliad o lyfrau o'r llyfrgell at ei gilydd o flaen llaw er mwyn helpu'r aelodau i ddewis llyfrau. Efallai y gall gwahanol aelodau yn eu tro helpu'r llyfrgell i gasglu'r llyfrau.

Themâu

Pob aelod yn dewis ei lyfr ei hun o fewn y thema ac yn y cyfarfod nesaf yn ei ddangos a'i ddisgrifio i weddill y grŵp. Mae clywed darlenniad byr yn rhoi blas o'r llyfr.

- gwaith un awdur
- nofelau cyntaf awduron newydd
- enillwyr gwobrau
- llyfrau o weisg bychan annibynnol
- hoff lyfr o blentyndod
- llyfrau o'r un ddegawd
- llyfrau o un wlad neu gyfandir
- llyfrau sydd wedi fy helpu trwy brofiad
- llyfrau na lwyddais i'w gorffen
- llyfrau wedi eu cyfieithu
- llyfrau cyfoes sy'n 'ddilyniant' i lyfrau enwog
- llyfrau sydd wedi agor fy llygaid
- barddoniaeth gan awduron sydd hefyd yn nofelwyr
- llyfrau dwi wedi bwriadu eu darllen ond heb wneud hynny eto
- cas lyfr
- llyfrau roddodd brofiad gwahanol wrth eu hailddarllen
- llyfrau yr hoffwn gymorth gyda hwy

Tymhorol

Beth am ddarllen:

- straeon caru ar gyfer Dydd Santes Dwynwen
- llyfrau Cymraeg wedi eu cyfieithu, neu lyfrau Saesneg o Gymru at Ddydd Gŵyl Dewi
- straeon Nadoligaidd
- llyfrau er mwyn osgoi'r Nadolig
- llyfrau ar gyfer y traeth neu siwrne hir
- cynnyrch yr Eisteddfod
- straeon ysbryd at Galan Gaeaf
- straeon neu gerddi cyfnod rhyfel adeg Sul y Cofio
- straeon i gyd-fynd â dathliad neu goffâd (e.e. Gêmau Olympaidd, canmlwyddiant geni awdur)

■ Rhestr hir Llyfr y Flwyddyn

Genres

Llyfrau taith, bywgraffiadau, barddoniaeth, llyfrau ditectif, hiwmor, ffantasi, gwyddonias, sagas, nofelau hanesyddol, straeon byrion – mae'r dewis o *genres* yn eang iawn. Gallwch

- ddewis dau neu dri llyfr o'r un *genre* ond efallai rai sy'n amrywiol iawn eu cynnwys a'u harddull
- adael i bob aelod ddewis ei lyfr ei hun o fewn *genre* (byddai cael enghreifftiau o stoc llyfrgell yn helpu pobl i ddewis)
- ddilyn un *genre* dros gyfres o gyfarfodydd

9

Cymorth wrth ddarllen

Cofiwch taw'r profiad o ddarllen sy'n bwysig ac nid pa mor dda neu wael yw'r llyfr. Yr hyn y byddwch yn ei drafod yw eich ymateb chi wrth ddarllen y llyfr ac ar ôl ei orffen. Mentrwch roi cynnig ar rai o'r technegau hyn wrth ddarllen – fe allant gyfoethogi'r profiad a'ch helpu i gofio pethau wrth eu trafod yn y grŵp.

Munud i feddwl

Ar ôl pob cyfnod o ddarllen, treuliwch funud neu ddwy yn meddwl am beth fuoch yn ei ddarllen ac a oedd unrhyw beth ynddo wedi eich plesio neu'ch taro, eich drysu neu'ch poeni.

Cymorth i gofio

Defnyddiwch bytiau o bapur gludiog i nodi darnau difyr neu ddiddorol wrth ddarllen. Gwnewch restr o'r prif gymeriadau ac ychydig o eiriau am brif argymhellion pob un (mae hyn yn help mawr gyda nofelau cymhleth sydd â llawer o gymeriadau).

Llyfrnodi

Dyma ffordd o gadw cofnod o'ch perthynas gyda llyfr wrth i chi ei ddarllen, er mwyn cymharu'r profiad darllen gyda phobl eraill. Erbyn cyrraedd y diwedd, mae'n hawdd anghofio sut roedd rhywun yn teimlo wrth ddarllen.

Gwnewch gopi o'r set o lyfrnodau [Adran 23] ar gyfer pob darllenydd. Wrth ddarllen y llyfr, gosodwch lyfrnod yn y lle priodol ac ysgrifennwch ychydig o sylwadau. Gadewch nhw yn eu lle. Dewch â'r llyfr gyda'r llyfrnodau ynddo i'r cyfarfod grŵp. Cymharwch ble mae pawb wedi gosod y llyfrnodau a'r sylwadau arnynt. Gallwch wneud hyn fel grŵp cyfan neu mewn paru neu grwpiau bach.

Dyddiadur darllen

Cadwch ddyddiadur neu lyfr nodiadau wrth eich

ochr tra byddwch yn darllen. Nodwch deitl ac awdur y llyfr a'r dyddiadau pryd y bu i chi gychwyn a gorffen ei ddarllen. Beth am nodi beth yw eich disgwyliadau o'r llyfr cyn cychwyn, neu'r rheswm pam rydych wedi ei ddewis?

Wrth ddarllen, ac ar ddiwedd pob pennod neu adran, nodwch dri gair neu gymal i'ch helpu i gofio eich ymateb ar y pryd i'r plot, y cymeriadau, a'r iaith. Gwnewch hyn yn gyflym heb feddwl gormod amdano. Yna ar ddiwedd y llyfr, nodwch dri gair neu gymal am eich ymateb i'r llyfr fel cyfanwaith. Nodwch hefyd a yw'r llyfr wedi cyrraedd eich disgwyliadau neu beidio. Wnewch chi ei argymhell i ddarllenydd arall? Byddwch yn gwbl onest a greddfol yn eich dyddiadur darllen – ni fyddwch yn ei ddangos i neb arall.

Dewch â'r dyddiadur gyda chi i gyfarfodydd y grŵp i'ch helpu i gofio pethau i'w trafod. Cewch lawer o bleser hefyd o edrych yn ôl dros yr hyn y buoch yn ei ddarllen fisoedd neu flynyddoedd ynghynt – bydd yn ddiddorol i wybod pa lyfrau rydych wedi anghofio'n llwyr amdanynt a pha rai sydd wedi aros yn fyw yn eich cof neu wedi newid eich agwedd at fywyd.

Darllen ar lafar

Os yw iaith neu arddull sgwennu llyfr yn drawiadol iawn neu'n anghyfarwydd i chi, darllenwch ddarnau allan ar lafar i chi eich hun. Byddwch yn darllen yn fwy gofalus ac yn clywed siâp a sain yr ysgrifennu'n well. Peidiwch â phoeni pwy sy'n gwranddo – efallai y bydd yn codi awydd arnynt hwythau i ddarllen y llyfr!

10 Trafod llyfrau

Sut fath o drafodaeth ydych chi am gael?

Trafodaeth gyffredinol

Mae'r rhan fwyaf o grwpiau yn cael trafodaethau cyffredinol am y llyfrau – gan ddefnyddio cwestiynau cyffredinol i gychwyn y sgwrs, ac yna'n mynd i fwy o fanylder am agweddau arbennig o'r llyfr a'r profiad ddarllen. Gallwch hefyd ofyn i un aelod gychwyn y drafodaeth trwy roi cyflwyniad byr i'r llyfr (ond heb geisio crynhoi'r cynnwys i gyd!) ac yna gofyn cwestiwn agoriadol.

Mae rhai cwestiynau cyffredinol yn ysgogi sgwrs ar unrhyw lyfr – edrychwch ar Sgwrsio am lyfrau [Adran 21] am awgrymiadau. Gall llywydd y drafodaeth ddefnyddio'r rhestr er mwyn cychwyn y drafodaeth ac i daflu cwestiwn i mewn o bryd i'w gilydd i newid cyfeiriad y sgwrs neu i lenwi bwlch yn y siarad. Fel amrywiaeth, gallwch hefyd ddefnyddio'r cwestiynau ar gardiau – cymysgwch y cardiau a'u rhannu allan ymysg yr aelodau. Gofynnwch i'r aelodau ddarllen eu cwestiwn allan yn eu tro a'r grŵp i ymateb trwy drafod.

Gallwch hefyd ofyn i bawb sgwennu un cwestiwn penodol am y llyfr ar darn o bapur, gosod y cwbl mewn het, a'u tynnu allan fesul un i'w trafod.

Yn naturiol, bydd y sgwrs o bryd i'w gilydd yn dilyn sgwarnog. Er bod hynny'n dderbyniol, dylid ceisio peidio treulio gormod o amser ar hyn a dod yn ôl i ganolbwyntio ar y llyfr ei hun. Cyfrifoldeb y llywydd yw hyn, ond yn aml iawn bydd un o'r aelodau yn tynnu trywydd y sgwrs yn ôl.

Defnyddio Canllawiau Darllen (Reading Guides)

Mae rhai grwpiau yn defnyddio Canllawiau Darllen i strwythuro eu trafodaeth. Maent yn boblogaidd iawn yn yr Unol Daleithiau ac mae cannoedd ar gael ar y we neu mewn print gan gyhoeddwyr am lyfrau Saesneg.

Tra gallant fod yn ddefnyddiol, mae perygl iddynt ddwyn y plaser allan o'r profiad darllen os yw'r darllenydd yn poeni am orfod ateb cwestiynau fel mewn arholiad. Fe all hefyd arwain at drafodaeth fwy ffurfiol – gwylwch nad yw'r grŵp darllen yn troi'n ddosbarth llenyddiaeth. Wedi dweud hynny, mae'r canllawiau sydd ar gael yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am y llyfrau a'r awduron ac efallai y byddai cael un wrth law yn gymorth i arweinydd y drafodaeth daflu ambell gwestiwn i mewn.

Edrychwch yn *Grwpiau darllen a llyfrau ar we* [Adran 16] am wefannau â chanllawiau darllen.

Gwybodaeth gefndirol ar y llyfr a'r awdur

Weithiau mae cael ychydig o wybodaeth gefndirol am yr awdur, y llyfr neu'r cyd-destun yn ddefnyddiol. Beth am gael tudalen fer o wybodaeth cyn darllen, ac yna gwybodaeth bellach ar ôl darllen?

Gall yr arweinydd neu aelod arall o'r grŵp baratoi'r dudalen o gyflwyniad trwy bori'r rhyngwyd a chopio a phastio deunydd. Yna gall aelod arall chwilota am wybodaeth ddyfnach ar y we, mewn cylchgronau a phapurau newydd neu mewn llyfrau cyfeiriol. Mae rhai grwpiau yn casglu'r holl wybodaeth ynghyd a'i rhoi mewn ffolder at ddefnydd darllenwyr eraill yn y llyfrgell. Mae'n hwyl hefyd edrych yn ôl ar ddiwedd blwyddyn ar y llyfrau rydych wedi eu trafod.

Peidiwch â gadael i hyn fynd yn drech na'r grŵp na'r unigolion. Atodol ydi o – y peth pwysig yw darllen a thrafod y llyfr ei hun. Gwylwch hefyd rhag datgelu manylion y plot neu'r diweddglo!

Mae cynnal gweithgaredd arbennig o bryd i'w gilydd yn helpu i gadw'r grŵp yn ffres ac yn fywiog.

Cysgodi gwobrau llyfrau

Pan gyhoeddir rhestr hir neu restr fer rhyw wobwr arbennig, megis Llyfr y Flwyddyn, rhannwch y teitlau allan ymysg y grŵp gan sicrhau fod pob llyfr yn cael ei ddarllen gan o leiaf un aelod. Dewch at eich gilydd i drafod eich profiadau o'u darllen a phleidleisiwch i weld pa un fyddai'n ennill petaech chi'n feirniaid. Cymharwch wedyn gyda'r dyfarniad go iawn. Ewch i *Grwpiau darllen a llyfrau ar y we* [Adran 16] am wefannau'r prif wobrau llyfrau. Gallwch gofrestru i dderbyn hysbysiadau e-byst gan nifer ohonynt.

Cyfarfod Nadolig/pentymor

Dros luniaeth ysgafn (gwin twym a mins peis, mae'n debyg!) edrychwch yn ôl dros y llyfrau mae'r grŵp wedi eu darllen yn ystod y flwyddyn (sicrhewch gopiâu er mwyn atgoffa pobl ohonynt). Gall pob aelod eiriol dros eu hoff lyfr y flwyddyn, neu ymgyrchu yn erbyn un maent yn ei gasáu.

Pleidleisiwch wedyn dros:

- Cracyr y Flwyddyn
- Twrci'r Flwyddyn
- Syrpreis y Flwyddyn

ac yn y blaen, gan ddefnyddio taflenni pleidleisio sydd â lle ar gyfer rhoi sylw am lyfr. Mae'n gyfle da i gofio am lyfrau rydych wedi eu mwynhau, hyd yn oed os ydych wedi casáu'r 3 llyfr diwethaf. Tybed ydi'r farn ar rai llyfrau wedi newid ar ôl ychydig fisoedd? Oes yna lyfrau yn aros yn gryf yn y cof, ac eraill wedi cael eu hanghofio'n llwyr? Beth am ysgrifennu datganiad i'r wasg ar gyfer y flwyddyn newydd a gosod arddangosfa o'r llyfrau a'r sylwadau yn y llyfrgell? Anfonwch sylwadau ar deitlau unigol i www.gwales.com

Dilyn rhestri neu awgrymiadau

Mae sawl rhaglen deledu a radio neu bapur newydd erbyn hyn yn hyrwyddo llyfrau ac yn annog pobl i'w darllen. Beth am ddewis rhai o'r llyfrau o'r rhestri hyn – pawb yn darllen yr un llyfr neu'n rhannu'r rhestr ymhlith y grŵp?

Hyrwyddiad yn y llyfrgell

Efallai bod eich llyfrgell leol yn hyrwyddo casgliadau arbennig o lyfrau – beth am ddarllen a thrafod rhai ohonynt, cofnodi eich sylwadau a chreu posteri neu gardiau sylwadau i gyd-fynd â'r arddangosfa o lyfrau yn y llyfrgell? Bydd o ddiddordeb mawr i bobl eraill sy'n dod i'r llyfrgell.

Penodau cyntaf

Pob aelod o'r grŵp i ddewis ei hoff 'bennod gyntaf' ac yn ei rannu gyda'r grŵp – darllen ychydig ohoni allan a sgwrsio am pam maen nhw'n ei hoffi. Gallwch wedyn drafod y penodau – oes cyfrinach i'r bennod gyntaf lwyddiannus, tybed?

Blasu gwin a llyfrau

Noson o flas gwin a blasu llyfrau. Dewiswch dri neu bedwar llyfr a phenderfynu sut brofiad darllen maen nhw'n ei gynnig (byr, melys, dwys, cymhleth, ysgafn ayyb). Yn y siop win, chwiliwch am winoedd sy'n cynnig yr un profiadau. Ar y noson disgrifiwch y gwin (defnyddiwch y label i'ch helpu, neu gofynnwch am gymorth arbenigwr – efallai bod un ymhlith yr aelodau) yna defnyddiwch yr un termau blasu i ddisgrifio'r profiad o ddarllen y llyfr. Yna tywalltwch y gwin a darllenwch bwt blasus o'r llyfr ar lafar. Beth am ychwanegu siocled? Eto ceisiwch ddod o hyd i siocled sy'n cynnig yr un profiad â'r llyfr a'r gwin. Mae hon yn noson hwyliog iawn ac yn ffordd dda o ddenu darllenwyr newydd i'r grŵp neu'r llyfrgell. Bydd angen ystyried y costau o brynu'r gwin/siocled.

Llyfrau a bwyd neu winoedd o wlad arbennig

Penderfynwch ar wlad neu gyfandir, dewiswch un neu ddau o lyfrau sydd wedi eu gosod yno, a dewch â bwydydd/diodydd sy'n gysylltiedig â'r lle. Gall hwn weithio hefyd gyda llyfrau wedi eu cyfieithu o ieithoedd eraill.

Efallai y gallwch ddod o hyd i nawdd ar gyfer digwyddiadau fel y rhain – gan siop win, siop fwyd neu fwyty lleol.

Mynd am bryd o fwyd

Os yn mynd i fwyty Eidalaid, darllenwch lyfrau am neu o'r Eidal a sgwrsiwch dros y bwyd. Gofynnwch i bawb lapio llyfr fel anrheg a'i roi mewn sach – pawb i ddewis anrheg ar y diwedd.

Cyfnod hanesyddol

Beth am ddewis canrif neu gyfnod a darllen llyfrau wedi eu gosod yn y cyfnod hwnnw (nofelau hanesyddol) neu lyfrau a ysgrifennwyd yn y cyfnod hwnnw (efallai mewn diweddariadau)? Os ydych am fynd i'r eithaf gallwch wisgo i fyny hefyd!

Cyfarfod awdur

Ewch i glywed awdur yn siarad mewn digwyddiad neu wyl, neu gwahoddwch awdur i ddod at y grŵp darllen ei hun. Dylai'r grŵp geisio darllen un neu ragor o lyfrau'r awdur cyn ei gyfarfod er mwyn gallu trafod y profiad o'i ddarllen. Ar y cyfan mae awduron wrth eu bodd yn clywed am brofiadau darllenwyr.

(Mae'n arferol i gynnig ffi i awdur am ymweld – rhaid trafod hyn gyda'r awdur wrth wneud y trefniadau. Yng Nghymru, mae'r Academi yn cynnig cymorth ariannol dan y cynllun Awduron ar Daith www.academi.org.)

Theatr neu sinema

Beth am fynd i weld addasiad o lyfr ar lwyfan neu mewn ffilm? Bydd cyfle wedyn i drafod sut mae'r profiad o'i weld yn cymharu â'r profiad o'i ddarllen.

Gwyliau llenyddol

Mae ymweld â'r Eisteddfod, neu wyl lenyddol megis Gŵyl y Gelli, yn donig i lawer o ddarllenwyr. Mae'n gyfle i glywed awduron cyfarwydd ac anghyfarwydd yn siarad; i brynu llyfrau; i gymryd rhan mewn seminarau neu sesiynau trafod, ac i gyfarfod darllenwyr eraill.

Ymweliadau

Beth am ymweld â lle sy'n gysylltiedig ag awdur

neu lyfr arbennig (man geni neu gartref awdur, amgueddfa, lleoliad i stori neu lyfr arbennig)?

Cwis

Gall y cwestiynau fod yn seiliedig ar y llyfrau rydych wedi eu darllen dros y flwyddyn, neu'n rhai cyffredinol ar lyfrau e.e.

- Pa gymeriad oedd yn byw yn . . .
- Pwy briododd . . .
- Pwy ddywedodd hyn . . .
- Agoriad/diweddglo pa lyfr yw hwn . . .
- Pwy ysgrifennodd . . .
- Clawr pa lyfr yw hwn (cuddiwch y teitl ac enw'r awdur) . . .
- Llun o ba awdur yw hwn . . .

Gefeillio gyda grŵp arall

Trefnu i gyfarfod ar y cyd gyda grŵp darllen arall yn yr ardal – efallai ar gyfer ymweliad awdur, i fynd ar ymweliad â lleoliad arbennig, neu dim ond i rannu trafodaeth ar yr un llyfrau.

Trefnu diwrnod darllenwyr ar y cyd gyda grwpiau eraill

Diwrnod ar gyfer yr holl grwpiau mewn ardal – sesiynau trafod, gêmâu darllen, cyfnewid llyfrau, arddangosfeydd, siaradwyr gwadd, gwerthu llyfrau ayyb.

Cymryd rhan mewn prosiectau

Yn gynyddol, mae cyhoeddwyr ac asiantaethau eraill ym myd llyfrau yn sylweddoli fod gweithio gyda grwpiau darllen yn ffordd effeithiol o gyrraedd darllenwyr ac o gasglu eu barn. Mae rhai cyhoeddwyr yn cynnig llyfrau mewn profleuni i grwpiau eu darllen ac ymateb iddynt; eraill yn cynnig cynllun llyfr y mis neu'n trefnu ymweliadau gan awduron. Yn aml, llyfrgellydd datblygu darllen y sir yw'r person cyswllt, a dylai grwpiau gadw mewn cysylltiad agos â nhw.

12 Gêmau darllen

Annwyl Ddarllenydd

Defnyddiol

- ❖ yng nghyfarfod cyntaf grŵp newydd
- ❖ pan fydd aelod newydd yn ymuno â grŵp
- ❖ i ail-fywiogi grŵp

Angen

- ❖ cardiau *Annwyl Ddarllenydd* [Adran 18]

Amser

- ❖ 5–10 munud

Rhannwch y grŵp yn barau neu'n driawdau. Pawb i gymryd cerdyn a gofyn y cwestiwn i'w bartner. Anogwch bawb i sgwrsio am y cwestiwn yn hytrach na rhoi ateb un gair. Cymerwch ragor o gardiau fel y mynnwch i gadw'r sgwrs i fynd.

Sgwrsio am ddarllen

Defnyddiol

- ❖ i ysgogi sgwrs am unrhyw lyfr
- ❖ i lywydd y sgwrs (yn arbennig os nad yw wedi darllen y llyfr ei hun)
- ❖ pan nad oes llywydd ar gael
- ❖ pan mae'r drafodaeth yn gwywo

Angen

- ❖ cardiau *Sgwrsio am ddarllen* [Adran 21]

Gall y llywydd yn unig eu defnyddio, neu eu gosod ar y bwrdd, ben i lawr, a'r aelodau'n dewis cerdyn ar hap o bryd i'w gilydd.

Hel atgofion

Defnyddiol

- ❖ i gofio am lyfrau a ddarllenwyd yn y gorffennol
- Angen
- ❖ mynediad i lyfrgell neu siop a'i stoc
 - ❖ cardiau *Hel Atgofion* [Adran 19]. Gwnewch ddigon o gopiâu fel bod o leiaf un cerdyn i bob aelod.

Amser

- ❖ 10 munud i chwilota, 15–30 munud (yn dibynnu ar y nifer)

Pawb i bori yn y llyfrgell/siop am ddeg munud a dod yn ôl gyda llyfr maen nhw wedi ei ddarllen yn y gorffennol. Pob aelod yn ei dro i ddangos y llyfr maent wedi ei ddewis, cymryd cerdyn o'r pentwr, ac ateb y cwestiwn sydd arno.

Cyfarfod y llyfrau

Defnyddiol

- ❖ wrth geisio dewis llyfrau i'w darllen fel grŵp
- ❖ i annog y grŵp i fentro darllen llyfrau anarferol ac anghyfarwydd

Angen

- ❖ casgliad amrywiol o 10–15 o lyfrau. Ceisiwch ddewis llyfrau llai cyfarwydd, gyda chloriau anarferol, awduron anghyfarwydd a.y.y.b.

Amser

- ❖ 30 munud

Gosod y llyfrau allan ar y bwrdd a chanolbwyntio ar y clawr a'r broliant. Neb i gyfaddef os ydynt eisoes wedi darllen y llyfr neu'n gwybod rhywbeth am ei gynnwys. Sgwrsiwch am

- ❖ pa rai sy'n apelio at y darllenwyr? Pam?
- ❖ pa rai sydd ddim yn apelio o gwbl? Pam?
- ❖ at bwya mae'r llyfrau unigol wedi eu targedu gan y cyhoeddwyr? Sut mae rhywun yn tybio hynny?

Dewis cyflym

Defnyddiol

- ❖ i sgwrsio am sut mae pobl yn dewis llyfrau
- ❖ i sgwrsio am ragfarnau am lyfrau

Angen

- ❖ mynediad i lyfrgell, siop neu stafell lle mae digon o lyfrau o gwmpas

Amser

- ❖ 30 munud

Pawb i fynd at y silffoedd a dewis 3 llyfr – un fel pleser, un fydd yn her ac un na fydddech yn ei gyffwrdd fel arfer. Rhaid i bobl ddewis yn gyflym, felly dim ond 5 munud sydd ar gael. Dewch yn ôl at eich gilydd i drafod beth mae pawb wedi ei ddewis a pham.

Gair bach

Defnyddiol

- ❖ i rannu syniadau am lyfrau i'w darllen fel unigolyn neu fel grŵp
- ❖ i ddod o hyd i eiriau diddorol i ddisgrifio'r profiad o ddarllen llyfr

Angen

- ❖ papur a beiros

Amser

- ❖ 20 munud

Ysgrifennwch deitl ac awdur llyfr ar un ochr o'r papur, ac ar yr ochr arall, un gair sy'n disgrifio'r profiad o'i ddarllen. Rhowch y papurau i gyd i lawr ar y bwrdd gyda'r teitl/awdur ben i waered. Pawb i ddewis un papur yn ei dro a mynd ati i ddarllen y llyfr, neu ei roi ar restr y llyfrau i'r grŵp eu darllen.

Tamaid i aros pryd

Defnyddiol

- ❖ wrth geisio dewis llyfrau i'w darllen fel grŵp
- ❖ i annog y grŵp i fentro darllen llyfrau anarferol ac anghyfarwydd

Angen

- ❖ casgliad amrywiol o 10–15 o lyfrau. Ceisiwch ddewis llyfrau llai cyfarwydd, gyda chloriau anarferol, awduroedd anghyfarwydd ayyb.

- ❖ cardiau pleidleisio – set o 2 i bob aelod [Adran 22]

Amser

- ❖ 30 munud

Rhannu'r llyfrau allan ar hap i'r aelodau. Yn eu tro, pawb i ddarllen yn uchel y deg llinell gyntaf o'u llyfr ac yna'r deg llinell gyntaf ar dudalen 40. Grŵp i bleidleisio gan ddefnyddio'r cardiau – ydy'r llyfr yn un 'Blas Da' neu'n 'Ych a fi'? Cyfrwch y pleidleisiau i weld pa lyfrau sydd fwyaf poblogaidd.

O law i law

Defnyddiol

- ❖ i rannu argymhellion am lyfrau i'w darllen
- ❖ i annog pobl i ddarllen pethau anghyfarwydd ac i gymryd risg gyda'u darllen

Angen

- ❖ pob aelod i ddod â chopi o lyfr maen nhw wedi ei ddarllen (cadw'n ddirgelwch am y tro)
- ❖ stribedi o bapur a beiros

Amser

- ❖ 15 munud

Cadwch y llyfrau o'r golwg am y tro. Pawb i gymryd papur a sgwennu teitl ac awdur eu llyfr ar ben y papur. Yna ei blygu drosodd o'r golwg (fel yn y gêm 'Consequences').

Yna sgwennu a chwblhau:

"Byddwch yn hoffi'r llyfr hwn os"

"Byddwch yn casáu'r llyfr hwn os"

"Bydd hwn yn eich atgoffa o"

a phlygu'r papur yn gyfan gwbl. Pawb i sefyll a phasio'r papurau o law i law nes bod yr arweinydd yn galw 'Arhoswch'. Agorwch eich papurau i ddarllen y nodiadau – ond nid y teitl/awdur. Os oes arnoch awydd darllen y llyfr, eisteddwch i lawr. Os nad oes, ail-blygwch y papurau a'u pasio o gwmpas eto ymlith y rhai sy'n dal ar eu traed.

Cariwch ymlaen nes bydd pawb wedi dewis ac eistedd. Yna, gofynnwch am y llyfr sydd ar eich papur chi, trefnwch i'w fenthg gan ei berchennog, ac ewch ati i'w ddarllen.

Agoriad Arbennig a Chlo Cofiadwy

Defnyddiol

- ❖ i amrywio patrwm cyfarfodydd
- ❖ i chwilio am syniadau am lyfrau i'w darllen

O flaen llaw, yr aelodau i ddewis eu hoff agoriad i lyfr a'u hoff ddiweddglô (o lyfr gwahanol mae'n debyg). Yn y cyfarfod, aelodau i egluro pam maen nhw wedi dewis y darnau hynny ac yna eu darllen yn uchel. Cyfyngwch yr amser i 2 funud i bob darlenniad. Beth am gael dewis un person ar ddechrau neu ddiwedd pob cyfarfod dros gyfnod?

Pawb â'i rôl

Defnyddiol

- ❖ i rannu allan y dyletswyddau
- ❖ os yw'r arweinydd dan straen/methu bod yno
- ❖ os yw un person yn dominyddu'r grŵp

Angen

- ❖ Cardiau *Pawb â'i rôl* [Adran 20] – y rhai sy'n berthnasol i'ch grŵp

Y ffordd orau i ddefnyddio'r rhain yw i osod y cardiau mewn pentwr a phawb yn cymryd un. Fe allech roi cardiau penodol i unigolion penodol os oes problem o fewn y grŵp, ond rhaid bod yn sensitif i deimladau aelodau.

Gyda'ch partner

Defnyddiol

- ❖ ar gyfer darllenwyr brwd sydd ag angen llawer o lyfrau i'w darllen mewn mis
- ❖ ar gyfer darllenwyr ar wasgar nad ydynt yn gallu cyfarfod yn aml os o gwbl (e.e. os ydynt yn defnyddio llyfrgell deithiol neu'n gaeth i'w cartrefi, neu'n gohebu dros e-bost neu neges-destun)

Fersiwn anffurfiol o gadwyn lyfrau yw hwn, nad yw'n gaeth i lyfrau penodol. Mae'r aelodau hynny'n sy'n dymuno bod mewn partneriaeth yn rhoi eu henwau mewn het. Tynnu'r enwau allan mewn parau. Mae pob pâr yn bartneriaid darllen am y mis. Partneriaid yn awgrymu llyfrau i'w gilydd i'w darllen y mis hwnnw. Yn y cyfarfod grŵp nesaf, rhoddir ychydig o amser i'r partneriaid sgwrsio am awgrymiadau ei gilydd ac i ddethol partneriaid newydd o'r het. Gallwch benderfynu aros yn bartneriaid am ragor nag un mis, ac i gyfarfod y tu allan i gyfarfodydd y grŵp os dymunwch. Os nad ydych yn cyfarfod fel grŵp, gallwch ddanfon sylwadau at eich gilydd.

13 Sgwennu am lyfrau

Un o'r dulliau mwyaf llwyddiannus o hyrwyddo darllen yw i gael darllenwyr i ddweud wrth ddarllenwyr eraill am lyfrau.

Mae gan llawer o lyfrgelloedd hysbysfyddau pwrpasol lle gall darllenwyr lenwi cardiau bychain gyda sylwadau am lyfr a gall darllenwyr eraill eu darllen. Mewn siopau llyfrau, mae'r staff yn aml yn cynnig sylwadau wedi'u gosod ar y silffoedd dan y llyfrau. Mae sawl gwefan yn cynnig fforymau trafod hefyd, a gellir anfon ymatebion i www.gwales.com

Sut i sgwennu am lyfrau

Y nod yw annog darllenwyr eraill i ddarllen y llyfr, neu i roi blas iddynt o'ch profiad yn ei ddarllen, ac nid i bwysu a mesur ei werth llenyddol. Cofiwch nad sgwennu traethawd ysgol nac adolygiad llenyddol i bapur newydd ydych chi.

- ❖ Ysgrifennwch fel tasech chi'n sgwennu at ffrind agos
- ❖ Cadwch y sylwadau'n bersonol – sut roeddech chi'n teimlo wrth ddarllen
- ❖ Cadwch yr iaith yn ysgafn ac yn gyfarwydd
- ❖ Peidiwch â chrynhoi'r plot
- ❖ Ceisiwch ddweud tri pheth diddorol am y llyfr
- ❖ Byddwch yn onest
- ❖ Peidiwch â bod ofn dweud os nad ydych wedi hoffi'r llyfr

Os yn briodol

- ❖ Rhowch gyngor ar sut i fynd i mewn i'r llyfr yn y lle cyntaf
- ❖ Eglurwch nad yw'r cynnwys yn debyg i'r hyn mae'r clawr neu'r broliant yn ei awgrymu

14 Datrys problemau

Aelodau newydd

Nid yw'n hawdd i aelod newydd ymdoddi i grŵp sy'n bodoli eisoes a lle mae pawb yn 'nabod ei gilydd. Nid yw'n gymaint o broblem mewn cymuned fechan lle mae pawb yn tueddu i 'nabod pawb arall – ond hyd yn oed yma nid ydynt yn nabod ei gilydd fel darllenwyr!

- ❖ Awgrymwch eu bod yn darllen y llyfr(au) cyn dod fel eu bod yn gallu sgwrsio os ydynt yn ddigon hyderus – neu o leiaf yn deall am beth mae pawb arall yn siarad
- ❖ Peidiwch â thynnu gormod o sylw at aelod newydd
- ❖ Peidiwch â gofyn i bawb adrodd eu henwau ar y dechrau – fel arweinydd ceisiwch ddefnyddio enw pawb yn ystod y sgwrs
- ❖ Eglurwch drefn y cyfarfod yn fras ar y dechrau
- ❖ Ceisiwch gael gair gyda'r aelod newydd ar y diwedd

Darllenwyr brwd iawn

Dydi'r un neu ddau o lyfrau bob mis ddim hanner digon iddynt. Beth am:

- ❖ Awgrymu eu bod yn darllen llyfrau eraill gan yr un awdur neu ar yr un thema ac adrodd yn ôl i'r grŵp ar sut mae llyfr y grŵp yn cymharu
- ❖ *Gêm Gyda'ch partner* [Adran 12]

Darllenwyr ynysig

Pobl nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd – oherwydd amgylchiadau daearyddol, iechyd, gwaith neu gartref efallai. Eto maent yn dymuno bod yn rhan o'r gymuned o ddarllenwyr sydd yn y grŵp a chael cyfle i gyfathrebu â darllenwyr eraill a derbyn awgrymiadau am lyfrau i'w darllen.

- ❖ *Gêm Gyda'ch partner* [Adran 12], gydag aelod o'r grŵp darllen yn barod i fod yn bartner i'r person ynysig
- ❖ Gohebu drwy e-bost, fforwm ar y we neu neges-destun ac anfon sylwadau ar lyfrau at y grŵp darllen
- ❖ Ffurio grŵp sy'n cyfarfod yng nghartrefi aelodau, gyda'r llyfrgell deithiol yn danfon setiau o lyfrau

Dirmyg neu amarch at farn aelod arall

O'r dechrau, dylai'r grŵp gytuno ar reolau i sicrhau fod pawb yn cael parch a chwarae teg o fewn y grŵp. Ond

o bryd i'w gilydd, fe all aelod dorri rheol – efallai trwy wneud sylw dirmygus am farn aelod arall ar lyfr, neu ddweud rhywbeth rhy bersonol yn erbyn aelod arall.

- ❖ Ar y pryd, dylai arweinydd y grŵp geisio cadw ffrwyn ar y sefyllfa trwy wneud sylw fel 'Gadewch i ni geisio cadw hyn rhag mynd yn bersonol' neu 'Rhaid i ni i gyd gofio fod hawl i bawb ei farn o fewn y grŵp a'n bod ni'n parchu barn pob aelod'.
- ❖ Treuliwch funud neu ddwy ar ddechrau cyfarfod i adolygu ac ailadrodd y rheolau er mwyn atgoffa pawb o'r hyn y cytunwyd arno, ac os bydd angen gallwch ddod o hyd i ateb heb wneud ymosodiad personol ar un aelod o'r grŵp.
- ❖ Os yw'r broblem yn parhau, dylai arweinydd y grŵp gael gair tawel o'r neilltu gyda'r aelod sy'n achosi diflastod, er mwyn egluro beth yw'r broblem.

Ceffyl blaen

Un aelod uchel ei gloch yn ceisio tra-arglwyddiaethu ar y drafodaeth ac yn gwrthod gadael i neb arall fynegi barn neu gyfrannu i'r sgwrs. Gall hyn ddinistrio awyrgylch y grŵp a diflasu'r aelodau eraill

- ❖ Strwythuro'r sgysiau fel bod aelodau eraill yn agor y drafodaeth trwy gyflwyno'r llyfr
- ❖ Awgrymu fod yr aelod yma yn paratoi taflen o wybodaeth cefndirol i'w rannu i'r grŵp yn ystod y cyfarfod. Ni fydd angen wedyn i'r aelod fynegi ei wybodaeth ar lafar.
- ❖ Defnyddio *Pawb â'i rôl* [Adrannau 12 a 20], er mwyn rhoi rôl arbennig i bawb yn y drafodaeth – gan efallai sicrhau fod yr aelod yma yn cael rôl fwy cefndirol am unwaith.
- ❖ Dylai'r arweinydd gadw rheolaeth ar y drafodaeth, gan ddiolch i'r aelod yma am ei sylwadau a gwahodd rhywun arall i gyfrannu.

Sgwrs yn gwywo

Weithiau bydd y drafodaeth yn distewi a neb yn gwybod beth i'w ddweud nesaf. Gall hyn ddigwydd weithiau pan mae pawb yn gytûn ynghylch y llyfr dan sylw.

- ❖ Ceisiwch sicrhau fod gan y llywydd un o'r *Gêmau* [Adran 12] yn barod i'w defnyddio ym mhob cyfarfod.

Sawl sgwrs

Wrth drafod, mae sawl sgwrs fechan rhwng dau neu dri aelod yn datblygu, fel bod pawb yn siarad ar draws ei gilydd. Po fwyaf yw'r grŵp, y mwyaf tebygol y mae hyn o ddigwydd. Gall achosi trafferthion i bawb, yn arbennig i unrhyw un sy'n drwm ei glyw. Bydd rhediad y drafodaeth yn mynd ar chwâl, ac mae'n dangos amarch at yr aelod oedd yn siarad ar y pryd.

- ❖ Rhaid i'r arweinydd alw trefn a gofyn i bobl geisio atal rhag sgwrsio gyda'u cymdogion tra bod rhywun yn siarad
- ❖ Ydi ffurf yr ystafell yn briodol i'r grŵp a'i faint? Os yw pawb yn eistedd o gwmpas bwrdd, ydi o'n rhy fawr? Os nad yw pawb yn clywed yn iawn, byddant yn cychwyn sgysiau bach gyda'u cymdogion agosaf.
- ❖ Os oes person trwm ei glyw yn y grŵp, sicrhewch ei fod yn eistedd yng nghanol y grŵp ac nid ar y cyrion
- ❖ Peidiwch â gadael i bobl eistedd yn yr un sêd, neu gyda'r un person bob tro – symudwch bobl o gwmpas fel bod ganddynt gymdogion newydd
- ❖ Treuliwch funud neu ddau ar ddechrau cyfarfod i adolygu ac ailadrodd y rheolau er mwyn atgoffa pawb o beth gytunwyd

Aelod swil

Nid yw'n angenrheidiol i siarad o fewn y grŵp – mae rhai aelodau'n mwynhau dod i wrando ar farn eraill heb gyfrannu at y sgwrs eu hunain. Serch hynny, dylai'r arweinydd sicrhau mai dyna yw eu dymuniad. Efallai eu bod eisiau dweud rhywbeth, ond yn teimlo'n rhy swil neu'n methu cael gair i mewn gan fod pawb arall yn siarad neu'n uchel eu cloch.

- ❖ Gall yr arweinydd gael sgwrs gyda nhw o flaen llaw am y llyfr dan sylw i weld beth oedd eu profiad o'i ddarllen. Wedyn gall yr arweinydd godi sylw neu bwynt perthnasol er mwyn tynnu'r aelod swil i mewn i'r sgwrs.
- ❖ Strwythuro'r sgysiau fel bod pob aelod yn ei dro yn agor y drafodaeth trwy gyflwyno'r llyfr – ewch i *Arwain grŵp darllen* [Adran 7] a *Trafod Llyfrau* [Adran 10]. Mae hyn yn rhoi cyfle i bawb gyfrannu'n gyfartal.

- ❖ Defnyddio *Pawb â'i rôl* [Adran 12 a 20] er mwyn rhoi rôl arbennig i bawb yn y drafodaeth – gan efallai sicrhau fod yr aelod yma yn cael rôl priodol.
- ❖ A fyddai'n well gan yr aelod swil gyfrannu at weithgaredd y grŵp mewn ffordd llai cyhoeddus? Beth am ofyn iddynt gofnodi rhai o'r sylwadau o'r sgwrs er mwyn eu gosod ar hysbysfwrdd darllenwyr yn y llyfrgell, mewn cylchlythyr neu ar wefan? Neu efallai yr hoffent fod yn gyfrifol am gasglu a didoli'r llyfrau ar ddiwedd y cyfarfod.
- ❖ Chwaraewch un o'r *Gêmau* [Adran 12], neu beth am gynnal un o'r *Gweithgareddau Arbennig* [Adran 11] er mwyn amrywio patrwm y cyfarfodydd o bryd i'w gilydd a lleihau'r pwysau o orfod siarad o flaen pawb

Anghytuno ar beth i'w ddarllen nesaf

Dylid ymdrechu i wneud hyn mor ddemocrataidd â phosib trwy roi cyfle i bawb fod yn rhan o'r dewis. Rhan o'r rhesymau dros fod yn aelod o grŵp darllen yw darllen llyfrau na fydddech fel arfer yn eu dewis neu'n dod ar eu traws. Dylai aelodau, felly, fod yn barod i roi cynnig ar unrhyw lyfr mae aelodau'n ei awgrymu.

- ❖ Peidiwch â gosod eich rhaglen ddarllen yn rhy bell ymlaen. Mae angen digon o amser i gael y llyfrau i mewn ond ddim gormod, neu fydd y grŵp ddim yn gallu ymateb i syniadau newydd sy'n codi na newid yn ôl ffansi'r aelodau. Mae angen cadw hyblygrwydd.
- ❖ Sicrhau digon o amrywiaeth yn eich rhaglen o lyfrau fel bod rhywbeth at ddant pawb.
- ❖ Edrychwch yn *Dewis beth i'w ddarllen* [Adran 8].
- ❖ Os yw aelod yn mynnu nad yw ond eisiau darllen rhai mathau o lyfrau, dylid ystyried a hoffai sefydlu grŵp darllen arbennig (ee grŵp ffuglen ditectif, ffuglen lenyddol, barddoniaeth neu ramant).

Rheoli setiau o lyfrau

Mae sawl awdurdod yn cynnig setiau o nifer o gopïau o'r un llyfr ar gyfer grwpiau darllen. Maent yn amrywio o 6 i 12 copi. Mae angen cydlynu'r setiau er mwyn osgoi cael dau grŵp ar ôl yr un set ar yr un pryd.

- ◆ Mae'n haws os yw'r setiau i gyd mewn un storfa gyda pherson penodol yn gofalu amdanynt.
- ◆ Crëwch galendr neu fasdata yn nodi pa grwpiau sydd eisiau pa setiau. Gyda chyfarfodydd misol, bydd set yn treulio 8–10 wythnos gydag un grŵp – amser i'w ddanfôn at y grŵp, mis yn cael ei ddarllen, wedyn hyd at fis yn cael ei ddychwelyd gan ddarllenwyr cyn ei anfon ymlaen at y grŵp nesaf.

Cadw trefn ar y llyfrau

Dyma un dull sy'n gweithio mewn llyfrgell sydd â system reolaeth gyfrifiadurol

- ◆ Crëwch gategori aelodaeth ar gyfer grwpiau darllen. Os yw'n bosib, gosodwch y cyfnod benthg yn hirach nag arfer i gyd-fynd ag amllder y cyfarfodydd (mis fel rheol)
 - ◆ Rhowch docyn aelodaeth i bob grŵp gyda'r arweinydd fel y person cyswllt
 - ◆ Gosodwch geisiadau am lyfrau yn erbyn y tocyn hwn
 - ◆ Pan ddaw'r llyfrau i mewn, benthycwch nhw i docyn y grŵp
 - ◆ Cadwch y llyfrau wrth law ar gyfer aelodau sy'n galw i mewn i'w benthg cyn y cyfarfod nesaf
- Os dymunwch, gallwch adael y llyfrau ar docyn y grŵp, ond ni fyddwch yn gwybod gan ba aelodau unigol mae'r copïau. Os hoffech wybod hynny:
- ◆ Benthycwch y llyfrau unigol ar docynnau personol pob aelod gan roi cyfnod benthg priodol
 - ◆ Os yw'r llyfrgell ar gau ar y pryd, nodwch eu rhif aelodaeth a rhif côd-bar y llyfr a'u gosod ar y system y bore wedyn
 - ◆ Pan ddychwelir y llyfr gan yr aelod, aiff yn ôl ar y silff neu yn ôl i'r llyfrgell gartref

Dod â grwpiau at ei gilydd

Mewn sawl ardal, mae'r llyfrgell yn trefnu cyfarfod blynyddol o gynrychiolwyr o bob grŵp darllen yn eu dalgylch. Mae'r grwpiau'n mwynhau'r cyfle i gymharu sut mae'r grwpiau yn cael eu trefnu, maent yn adeiladu perthynas â'i gilydd, yn rhannu syniadau ac yn annog cefnogaeth i ddigwyddiadau.

Cefnogaeth staff

Sicrhewch fod staff y llyfrgell yn ymwybodol o beth

mae'r grŵp yn ei ddarllen bob mis er mwyn cefnogi'r darllenwyr ac er mwyn cynyddu eu gwybodaeth hwy eu hunain o lyfrau. Mae'n syniad da i bob aelod o staff yn ei dro fynychu cyfarfod o'r grŵp er mwyn gweld beth sy'n digwydd, hyd yn oed os nad ydi cefnogi'r grŵp yn uniongyrchol yn rhan o'u dyletswyddau.

Hysbysfwrdd

Beth am gael hysbysfwrdd a bwrdd neu silff benodol ar gyfer y grwp(iau) darllen sydd yn eich dalgylch ar gyfer:

- ◆ sylwadau gan y darllenwyr ar wahanol lyfrau (gyda chopïau lliw o gloriau'r llyfrau)
- ◆ posteri'n dangos beth fydd y grŵp yn ei ddarllen yn y cyfarfodydd sydd i ddod
- ◆ newyddion am weithgareddau arbennig
- ◆ copïau benthg o lyfrau mae'r grŵp wedi eu darllen
- ◆ ffeil o wybodaeth am y llyfrau a'r awduron sydd wedi ei chasglu gan y grŵp dros y tymor

Bydd o fudd i'r grŵp, ond yn fwy na hynny, mae'n ffordd o ddefnyddio brwdfrydedd ac arbenigedd y grŵp er lles darllenwyr eraill sy'n ymweld â'r llyfrgell – mae'n gyfle i ddarllenwyr gyfathrebu â darllenwyr eraill.

Gwefan y llyfrgell

Cofiwch osod deunydd ar eich gwefan

- ◆ manylion am eich grwpiau darllen – lle a phryd maent yn cyfarfod a rhif ffôn neu e-bost i gysylltu
- ◆ dyddiadau eu cyfarfodydd a pha lyfrau sy'n cael eu darllen
- ◆ sylwadau'r darllenwyr ar lyfrau gyda chloriau'r llyfrau
- ◆ adroddiadau byr ar y cyfarfodydd (ac ambell lun?)

Y wasg leol

Mae sawl grŵp darllen yn danfon adroddiadau byr am eu cyfarfodydd a/neu sylwadau ar y llyfrau maent yn eu darllen at y papur bro neu bapur lleol. Mae'n gyhoeddusrwydd da i'r grŵp, i'r llyfrgell ac i'r llyfrau.

Cynulleidfa barod

Unwaith y bydd gennych grwpiau darllen yn eich ardal, mae gennych gnewyllyn o gynulleidfa ar gyfer digwyddiadau eraill fel ymweliadau awduron, lansiadau llyfrau a gwyliau llenyddol. Bydd trefnwyr cyrff eraill hefyd yn falch o gael anfon hysbysiadau at y grwpiau darllen, ac yn gynyddol mae'r Cyngor Llyfrau a chyhoeddwy'r sylweddoli fod budd mawr i'w gael o gysylltu'n uniongyrchol gyda darllenwyr trwy'r grwpiau darllen.

16 Grwpiau darllen a llyfrau ar y we

Gwefannau ar gyfer darllenwyr a grwpiau darllen

www.whichbook.net

Dewis llyfr yn ôl eich hwyliau neu yn ôl y math o brofiad darllen. Defnyddiol fel ffynhonnell o sylwadau darllenwyr ar lyfrau ac i ddod o hyd i lyfrau o wlad arbennig neu gyda'r un math o blot neu brofiad darllen.

www.cyfleiddianc.org

www.givemeabreak.org

Cyfle i ddewis llyfr yn ôl y math o ddihangfa yr hoffech ei chael. Dwyieithog.

www.bookgrouponline.com

Fforwm drafod ar-lein ar gyfer darllenwyr

www.thegoodbookguide.com

Safle annibynnol sy'n adolygu llyfrau o bob math.

www.bookgroup.info

Grŵp o ddarllenwyr sy'n gofalu am y safle. Newyddion ac adolygiadau llyfrau.

www.word-of-mouth.org.uk

Cyfle i ddewis llyfrau wedi eu hargymell gan ddarllenwyr eraill sy'n rhannu'r un 'proffeil' ddarllen â chi. Hybysfwrdd i ddarllenwyr.

<http://askchris.essexcc.gov.uk/welcome.asp>

Awgrymiadau am beth i'w ddarllen nesaf gan ddarllenwyr, aelodau grwpiau darllen a llyfrgellwyr. Yn cynnwys categori o lyfrau mae grwpiau wedi eu darllen. Cyfle i ymateb i lyfrau.

www.wakefield.gov.uk/CultureAndLeisure/Libraries/ReadersGroups/Booklists/default.htm

Rhestr llyfrau thematig gydag adolygiadau gan aelodau grwpiau darllen, i'w lawrlwytho fel ffeiliau pdf.

www.bookbrowse.com

Defnyddiol ar gyfer dewis llyfrau i'w darllen a thros 300 o ganllawiau darllen. UDA.

www.readinggroupguides.com

Dros 1500 o ganllawiau darllen ar gyfer grwpiau darllen. Rhestr i dolenni defnyddiol. UDA.

www.derbyshire.gov.uk/librar/book

Casgliad o ganllawiau darllen yn yr adran 'Book Chat List and Reading Guides'.

www.poetrybooks.co.uk

Safle'r Poetry Books Society. Cyngor a gwybodaeth i bawb sy'n mwynhau darllen barddoniaeth. Cyngor ar gynnal grŵp darllen barddoniaeth.

www.bookspot.com

Porth i wefannau llyfrau gan gynnwys nifer o grwpiau darllen ar-lein. UDA.

www.readinggroupchoies.com

Rhestr o ganllawiau darllen fesul awdur, teitl a themâu. UDA.

www.crimetime.co.uk

Cylchgrawn ar-lein am lyfrau ditectif a thor-cyfraith. Dolenni defnyddiol, adolygiadau a newyddion.

www.twbooks.co.uk

Safle Tangled Web – llyfrau ditectif a dirgelwch, gwyddonias, ffantasi ac arswyd gan gyhoeddwyr Prydeinig.

www.gnooks.com

Gwefan i'ch helpu i ddod o hyd i awduron tebyg i'r rhai rydych yn eu mwynhau. Cyfle i hefyd i gael trafodaeth ac i brynu.

www.meettheauthor.com

Pytiau fideo byr o awduron yn cyflwyno eu llyfrau eu hunain – ffuglen a ffeithiol.

www.readingagency.org.uk

Asiantaeth sy'n cefnogi gwaith llyfrgelloedd gyda darllenwyr. Yr yr adran Lawrlwytho (dan Reading Partners) mae'r 'Rolling Calendar' sy'n rhoi gwybodaeth o flaen llaw am hyrwyddiadau cenedlaethol a darllediadau am lyfrau.

www.openingthebook.com

Y cwmni datblygu darllenwyr sy'n cynnig hyfforddiant, ymgynghori a chynnyrch darlennydd - ganolog ar gyfer llyfrgelloedd.

Gwefannau cyhoeddwr ar gyfer darllenwyr

www.randomhouse.com/vintage/read/list.htm

Canllawiau darllen wedi eu trefnu fesul *genre*. UDA.

www.randomhouse.com/vintage/read/

Y Reading Group Center – cyngor ar sut i gynnal trafodaeth, canllawiau darllen, rhestr llyfrau a bwrdd negeseuon. UDA.

www.penguin.co.uk

Adran i grwpiau darllen – sut i gychwyn grŵp, newyddion, cynigion arbennig, cyfle i anfon cwestiynau at awduron, a chystadlaethau. Angen cofrestru.

www.readinggroups.co.uk

Safle HarperCollins – canllawiau darllen elfennol (dim pwyntiau trafod), awgrymiadau beth i'w ddarllen nesaf.

www.bloomsburymagazine.com/ReadersGroups/default.asp

Gwefan Bloomsbury – clwb darllen, canllawiau darllen, newyddion, cystadlaethau. Angen cofrestru.

Gwefannau Llyfrau

www.gwales.com

Y brif safle ar gyfer llyfrau Cymraeg a Saesneg o Gymru. Crynodebau, adolygiadau, cyfle i ymateb, manylion

llyfryddol, rhestrï penodol a modd i brynu ar-lein. Manylion cyswllt cyhoeddwy Cymru gan gynnwys dolenni i'w gwefannau a chatalogau ar-lein. Dwyieithog.

www.cllc.org.uk

Cyngor Llyfrau Cymru – newyddion am y maes llyfrau a chyhoeddi yng Nghymru. Manylion am nofel y mis a rhestr o'r llyfrau sydd wedi eu hadolygu ar gwales.com. Dwyieithog.

www.academi.org

Asiantaeth hyrwyddo llenyddiaeth Cymru. Cyfeiriadur awduron Cymreig, manylion digwyddiadau a gwobrau. Dwyieithog.

www.booktrust.org.uk

Elusen sy'n hyrwyddo llyfrau a darllen i bob oed – newyddion, gwybodaeth, rhestrï llyfrau ac ymgyrchoedd.

www.amazon.co.uk

Safle gwerthu llyfrau ac yn ddefnyddiol iawn i wybod beth sydd mewn print, i ddod o hyd i gloriau llyfrau, ac i chwilio am wahanol genres neu gategorïau.

www.bbc.co.uk/cymru/adloniant/llyfrau

Safle Llais Llên BBC Cymru gyda chyfweiliadau ag awduron, newyddion byd llyfrau ac adolygiadau. Cymraeg.

www.bbc.co.uk/radio4/arts

Safleoedd ar gyfer y rhaglenni llyfrau ar Radio 4 (fel Book Club, Good Read, Open Book, Front Row, Book of the Week, Book at Bedtime). Manylion am y llyfrau a drafodwyd a'r rhaglenni sydd i ddod, a chyfle i wrando eto ar y rhaglenni. Hefyd yn cynnwys dolenni i restr o wefannau pob gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus ym Mhrydain a'u catalogau ar-lein.

www.bbc.co.uk/arts/books

Safle fwy cyffredinol am lyfrau, llenyddiaeth, barddoniaeth ac ysgrifennu.

www.channel4.com/entertainment/tv/microsites/R/richardandjudy/book_club/book_club.html

Clwb llyfrau llwyddiannus rhaglen 'Richard and Judy'. Manylion am y llyfrau a'r awduron a chyfle i bleidleisio.

www.booksunlimited.co.uk

Y *Guardian* – adolygiadau, pytau o lyfrau, erthyglau, newyddion, cyfweiliadau, cwisiau.

www.enjoyment.independent.co.uk/books

Yr *Independent* – newyddion, adolygiadau, cyfweiliadau.

www.oneword.co.uk

Gorsaf radio ddigidol sy'n cynnwys llyfrau a thrafodaeth. Ar gael ar y we, neu deledu a radio digidol.

www.readysteadybook.com

Ffuglen lenyddol yn bennaf. Defnyddiol ar gyfer cyhoeddwy llynyddol Saesneg.

Gwobrau llyfrau

www.academi.org/bookoftheyear

Llyfr y Flwyddyn yng Nghymru – gwobrau am lyfrau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dwyieithog.

www.cllc.org.uk/llyf_plant_gwob.html

Gwobr Tir na n-Og, Tlws Mary Vaughan Jones a Bardd Plant Cymru.

www.bookerprize.co.uk

Newyddion am wobwr Booker, y llyfrau a'r beirniaid.

www.themanbookerprize.com/favourites

Gwefan ar gyfer darllenwyr yn rhoi syniad o beth fydd y profiad o ddarllen y llyfrau ar restr fer gwobr Booker.

www.thecwa.co.uk

Gwobrau'r Dagger am ffuglen ditectif a datrys a dirgelwch (Crime Writers' Association).

www.impacdublinaward.ie

Llyfrgelloedd dinasoedd o 50 gwlad sy'n enwebu llyfrau mewn unrhyw iaith, ar gyfer y wobwr yma.

www.orangeprize.co.uk

Y wobwr am nofel gan ferched. Cysylltiadau agos gyda darllenwyr a llyfrgelloedd, cyfle i ymateb.

www.publishingnews.co.uk/pn/pnbb_index.asp

Y British Books Awards.

www.rna-uk.org

Gwobrau'r Romantic Novelists Association am lyfrau rhamant.

www.thetravelbookaward.com

Gwobr am lyfrau taith llenyddol.

www.whitbread-bookawards.co.uk

Gwobrau am nofel, nofel gyntaf, bywgraffiad, barddoniaeth a llyfr plant gorau'r flwyddyn, ac yna un prif enillydd.

<http://books.guardian.co.uk/guardianfirstbookaward2004>

Gwobr y *Guardian* i awduron newydd.

www.thedylanthomasprize.com

Gwobr ryngwladol newydd i awduron dan 30 oed sy'n sgwennu yn Saesneg.

www.literature-awards.com/bookawards.htm

Mynediad i ddwsinau o wefannau gwobrau llyfrau ledled y byd. Wedi dyddio ychydig ond archif ddefnyddiol. UDA.

Anghenion arbennig

www.nlb-online.org

Mynediad i holl wasanaethau'r National Library for the Blind a chyngor ar sut i gynnwys pobl sydd â nam ar y golwg mewn grwpiau darllen.

www.revealweb.org.uk

Rhestrï o'r llyfrau sydd ar gael mewn ffurfiau amgen (print bras, braille, CD/tapiau sain) gan ystod eang o sefydliadau megis NLB ac RNIB

www.calibre.org.uk

Gwasanaeth sy'n benthycu llyfrau llafar am ffi.

www.rnib.org.uk

Yn cynnwys canllawiau ymarfer da ar greu adnoddau hygyrch, ac adran am Gymru gyda manylion cyswllt am adnoddau Cymraeg.

17 | Llyfrau am lyfrau

Who else writes like ...? A readers' guide to fiction authors

Roy & Jeanne Huse (gol)
LISU 2002 ISBN 1901786579

Adult sequels 13th edition

Mandy Hicken (gol)
Career Development Group 2004 ISBN
1901353095

Good Fiction Guide

Jane Rogers (gol)
Oxford University Press 2002 ISBN
0192800833

Bloomsbury Good Reading Guide

Nick Rennison (gol)
Bloomsbury 2004 ISBN 0747572348

Bloomsbury Good Reading Guide to Crime Fiction

Nick Rennison (gol)
Bloomsbury 2003 ISBN 0747560897

The Reading Group Toolbox

Rachel van Riel & Olive Fowler
Opening the Book 1999 ISBN1902603176

The Reading Groups Book

Jenny Hartley
Oxford University Press 2002 ISBN 0199255962

Essential Guide for Reading Groups

Susan Osborne
Bloomsbury 2002 ISBN 0747572119

Good Books Lately: the one-stop resource for book groups and other greedy readers

Ellen Moore & Kira Stevens
St Martin's Griffin Press (New York) 2004
ISBN 0312309619

newBOOKS.mag

guisemarketing
Cylchgrawn deufisol ar gyfer darllenwyr a grwpiau darllen. Erthyglau am lyfrau, sylwadau ac adolygiadau gan ddarllenwyr. Cyfle i gael llyfrau am ddim. www.newbooksmag.com

<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n ailddarllen?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen yn yr awyr agored?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n cael dy ddylanwadu os ydi llyfr wedi ennill gwobr?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen mewn manau cyhoeddus?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Oes gen ti hoff gadair i ddarllen ynddi?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n chwilio am rywbeth cyfarwydd neu rywbeth newydd?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Dewisa lyfr lle rwyd ti'n cofio ble'r oeddet ti wrth ei ddarllen am y tro cyntaf.</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pa gymeriad hoffet ti fod?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pam wyt ti'n rhoi'r gorau i lyfr cyn y diwedd?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen i ymestyn dy feddwl?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n hoffi darllen llyfrau sydd wedi eu gosod yn y wlad neu yn y ddinas?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Beth arall wyt ti'n ei wneud wrth ddarllen?</p>

<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Oedd yna adeg yn dy fywyd pan oedd darllen yn llai pwysig?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Lle ydi'r fan mwyaf anarferol i ti ddarllen ynddi?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen y pethau diweddaraf er mwyn bod yn gyfoes?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti erioed wedi darllen llyfr i gael cymorth ar adeg anodd?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n hoffi darllen am lefydd cyfarwydd neu lefydd dieithr?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pam wyt ti'n dod i gylch darllen?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Gefaist ti dy siomi gan lyfr erioed?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n ystyried beth mae pobl eraill yn dy weld yn ei ddarllen?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Gyda phwy wyt ti'n siarad am y llyfrau rwyt ti'n eu darllen?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Beth wyt ti'n ei ddarllen yn ystafell aros y deintydd/meddyg?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Ym mhle wyt ti'n cadw dy lyfrau gartref?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Ydi maint yn bwysig?</p>

<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen am gyfnodau hir neu gyfnodau byr?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen i amddiffyn dy hun weithiau?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n cael gwared ar lyfrau?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Sut wyt ti'n nodi'r lle rwyd ti wedi cyrraedd mewn llyfr?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n edrych ar y diwedd cyn cyrraedd yno?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Beth sy'n fwyaf tebygol o dy wylltio mewn llyfr?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Fedri di ddarllen tra bod pethau eraill yn digwydd o dy gwmpas?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pam wnest ti ddewis y llyfr rwyd ti'n ei ddarllen ar hyn o bryd?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen mwy nag un llyfr ar y tro?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pan wyt ti ar wyliau, wyt ti'n darllen llyfr am y lle?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n hoffi cymeriadau sy'n debyg i ti neu sy'n annhebyg i ti?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti wedi cael braw wrth ddarllen?</p>

<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Pa fath o lyfr fyddi di'n ei osgoi?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti bob amser yn gorffen llyfr ar ôl ei ddechrau?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n aros ar dy draed yn hwyr i orffen llyfr?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Sut wyt ti'n dechrau darllen llyfr?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti wedi dweud celwydd am beth rwyt ti wedi'i ddarllen?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n hoffi gwrando ar rywun arall yn darllen?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen yn y gwely cyn mynd i gysgu?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Sut wyt ti'n penderfynu beth i'w ddarllen nesaf?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n crio wrth ddarllen?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen i ymlacio?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n cofio llyfr o dy blentyndod?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Oes yna lyfr rwyt ti wedi bwriadu ei ddarllen ers amser maith ond heb wneud?</p>
<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti'n darllen yn y bath?</p>	<p>Annwyl Ddarllenydd ...</p> <p>Wyt ti erioed wedi chwerthin yn uchel wrth ddarllen llyfr mewn lle cyhoeddus?</p>	

19 Hel atgofion

<p>Beth ydych chi'n ei gofio am eich profiad yn darllen y llyfr?</p>	<p>Ble a phryd wnaethoch chi ddarllen y llyfr?</p>
<p>Sut daethoch chi ar draws y llyfr y tro cyntaf?</p>	<p>Ydi diwyg y fersiwn yn eich llaw yn wahanol i'r fersiwn ddarllenoch chi? Ym mha ffordd?</p>
<p>Beth ydych chi'n ei gofio am gynnwys y llyfr?</p>	<p>Fyddech chi'n dymuno ailddarllen y llyfr?</p>

<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ddod â'r gwin</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ddod â'r bisgedi/ fferins</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>gyflwyno eich Agoriad Arbennig a Chlo Cofiadwy</p>
<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ddod ag ychydig o wybodaeth gefndir am yr awdur</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ddod ag adolygiadau neu sylwadau am y llyfr o bapurau newydd neu wefannau</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>lywio'r drafodaeth</p>
<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>gyflwyno'r llyfr dan sylw</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ofalu am unrhyw aelod newydd</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>sicrhau fod y llyfrau nesaf ar gael</p>
<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>gofnodi'r sylwadau a'r sgwrsio</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>helpu gyda'r lluniaeth a'r clirio ar y diwedd</p>	<p>Y tro nesaf, plis wnewch chi ...</p> <p>ganolbwyntio ar helpu eraill i fynegi eu barn yn hytrach na gwneud hynny eich hun</p>

<p>Oedd o beth roeddech chi'n ei ddisgwyl?</p>	<p>Wnaeth eich teimladau newid wrth ddarllen trwy'r llyfr?</p>
<p>Wnaethoch chi gychwyn yn araf neu oeddech chi'n mynd fel y gwynt o'r dechrau?</p>	<p>Wnaeth rhywun neu rywbeth eich gwylltio?</p>
<p>Pa gymeriad ysgogodd eich ymateb cryfaf?</p>	<p>Beth oeddech chi'n feddwl o'r diwedd glo?</p>


<p>Am bwy roeddech chi'n teimlo fwyaf?</p>	<p>Fyddech chi'n argymhell y llyfr yma i rywun arall?</p>
<p>Gyda pha gymeriad hoffech chi dreulio amser ar ynys bellennig?</p>	<p>Beth roddodd fraw i chi?</p>
<p>Oes yna un olygfa sy'n aros yn y cof yn arbennig?</p>	<p>Os na wnaethoch chi orffen darllen y llyfr, fedrwch chi egluro pam nad oedd yn apelio?</p>

<p>Sut oeddech chi'n teimlo ar ôl gorffen y llyfr?</p>	<p>Pa fath o ddarllenydd fyddai'n mwynhau'r llyfr hwn?</p>
<p>Ydi'r llyfr yn eich atgoffa o unrhyw lyfr neu ffilm arall, neu brofiad personol?</p>	<p>Sut dylai'r llyfr fod wedi gorffen?</p>
<p>Oeddech chi'n hoffi rhai cymeriadau yn fwy nag eraill?</p>	<p>Beth yw eich barn am glawr a golwg y llyfr?</p>

<p>Pwy oedd eich hoff gymeriad?</p>	<p>Fyddech chi wedi dewis y llyfr hwn yn arferol?</p>
<p>Oedd rhannau o'r llyfr yn fwy darllenadwy nag eraill?</p>	<p>Pa ran o'r llyfr roddodd fwyaf o drafferth i chi?</p>


Blas da

Rhagor, os gwelwch yn dda



Ych a fi

Dim rhagor, diolch



23 | Llyfrnodau

Dyma lle arhosais i feddwl am
fy ymateb i'r darn cyntaf i mi
ei ddarllen

Dyma lle cefais afael go iawn
yn y llyfr ac roeddwn yn
gwybod y byddwn yn parhau
i'w ddarllen

Dyma lle dechreuais i golli
diddordeb yn y llyfr

Dyma'r dudalen olaf i mi ei
ddarllen

Argraffiadau cyntaf

Beth sydd wedi fy machu?

Beth sydd wedi achosi hyn?

Oedd o werth yr ymdrech?

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Disgwyliadau

Disgwyliadau

Disgwyliadau

Cyngor i ddarllenydd arall

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....